ual: awarding body

# Lefel 3

—

# Diploma Sylfaen UAL mewn **Celf a Dylunio**



# Am UAL Awarding Body

**Mae UAL Awarding Body yn credu mewn addysg drawsffurfiol. Rydym yn dylunio a dyfarnu cymwysterau creadigol sy’n grymuso, cefnogi ac ysbrydoli addysgwyr i helpu myfyrwyr i gyflawni eu potensial.**

## Cymwysterau sy’n gwobrwyo creadigrwydd.

**Mae UAL Awarding Body yn cael ei reoleiddio gan Ofqual, Cymwysterau Cymru a CCEA Regulation ac ar hyn o bryd mae’n cynnig cymwysterau mewn Celf a Dylunio, Busnes a Manwerthu Ffasiwn, Cynhyrchu a Thechnoleg y Cyfryngau Creadigol, Perfformio a Chynhyrchu Cerddoriaeth a’r Celfyddydau Perfformio a Chynhyrchu. Ni hefyd yw prif ddarparwr y Diploma Sylfaen mewn Celf a Dylunio yn y DU. Mae gan ein cymwysterau gyfraddau cadw a chyflawniad uchel am eu bod yn hyblyg, yn ymatebol ac yn berthnasol i anghenion diwydiant, ac yn hwyluso dilyniant myfyrwyr.**

University of the Arts London (UAL) yw prifysgol fwyaf Ewrop sy’n arbenigo mewn celf a dylunio, ac mae’n cynnwys chwe Choleg adnabyddus:

Camberwell College of Arts
Central Saint Martins
Chelsea College of Arts
London College of Communication
London College of Fashion
Wimbledon College of Arts

arts.ac.uk/awarding

Delwedd y clawr: Millie Beck, Leeds Arts University

# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| Adran 1 | **Y cymhwyster ar amrantiad** | **4** |
| Adran 2 | **Trosolwg o'r cymhwyster** | **6** |
| Adran 3 | **Asesu a safoni** | **12** |
| Adran 4 | **Graddio** | **16** |
| Adran 5 | **Strwythur a chynnwys y cymhwyster** | **19** |
| | Uned 1 Ymchwiliad Diagnostig i Ymarfer Creadigol | 23 |
| | Uned 2 Datblygu Ymarfer Arbenigol | 30 |
| | Uned 3 Atgyfnerthu Ymarfer | 38 |
| Adran 6 | **Arweiniad i fyfyrwyr** | **47** |
| Adran 7 | **Geirfa** | **49** |
| Adran 8 | **Sicrhau ansawdd** | **53** |
| Adran 9 | **Adnoddau a chefnogaeth** | **54** |
| | **Eisiau gwybod mwy?** | **51** |

# Adran 1
# Y cymhwyster ar amrantiad

## Diploma Sylfaen mewn Celf a Dylunio
Lefel 3

| | |
|---|---|
| **Teitl y cymhwyster** | **Diploma Sylfaen Lefel 3 UAL mewn Celf a Dylunio** |
| **Rhif y cymhwyster** | 603/3138/0 |
| **Dyddiad cychwyn y cymhwyster** | 1 Medi 2018 |
| **Ystod oedran a gymeradwyir** | 16–18, 19+ |
| **Oriau Dysgu dan Arweiniad (ODA)** | 680 |
| **Cyfanswm Amser y Cymhwyster (CAC)** | 1,200 |
| **Cyfanswm credydau** | 120 |
| **Diben y cymhwyster** | Mae Diploma Sylfaen Lefel 3 UAL mewn Celf a Dylunio yn gymhwyster allweddol, sy'n hwyluso myfyrwyr i bontio rhwng addysg gyffredinol ac addysg arbenigol ym maes celf a dylunio. Mae hyn yn galluogi myfyrwyr i wneud penderfyniad gwybodus wrth wneud cais i addysg uwch neu wrth iddynt geisio gwaith mewn diwydiant cysylltiedig. |
| **Gofynion mynediad** | Nid oes unrhyw ofynion mynediad ffurfiol ar gyfer y cymhwyster hwn.<br><br>Fodd bynnag, argymhellir bod gan fyfyrwyr o leiaf 5 TGAU gradd 4 neu radd C, gan gynnwys Mathemateg a Saesneg, ac un cymhwyster Safon Uwch, neu gymhwyster Lefel 3 cyfatebol, yn ddelfrydol mewn pwnc creadigol perthnasol.<br><br>Disgwylir i fyfyrwyr rhyngwladol ddangos bod ganddynt lefel dda o Saesneg ysgrifenedig a llafar gyda sgôr IELTS (neu gymhwyster cyfatebol) o 5.0 o leiaf.<br><br>I gael rhagor o wybodaeth, gweler Adran 2.2 Gofynion mynediad. |

| Teitl y cymhwyster | Diploma Sylfaen Lefel 3 UAL mewn Celf a Dylunio |
|---|---|
| **Strwythur y cymhwyster** | Er mwyn ennill Diploma Sylfaen Lefel 3 UAL mewn Celf a Dylunio, rhaid i fyfyrwyr ennill gradd Llwyddo yn yr unedau gorfodol canlynol:<br>> Uned 1: Ymchwiliad Diagnostig i Ymarfer Creadigol (Lefel 3)<br>> Uned 2: Datblygu Ymarfer Arbenigol (Lefel 3)<br>> Uned 3: Atgyfnerthu Ymarfer (Lefel 4) |
| **Graddio** | Dim ond gradd Llwyddo a gaiff ei rhoi ar gyfer Unedau 1 a 2. Mae gradd gyffredinol y cymhwyster yn seiliedig ar Uned 3, a rhoddir gradd Methu, Llwyddo, Teilyngdod neu Ragoriaeth. |
| **Pwyntiau UCAS** | UCAS **Ll**80 **T**96 **Rh**112 |
| **Model asesu** | Asesir y cymhwyster hwn drwy gyfrwng:<br>> dwy uned wedi'u hasesu a'u dilysu'n fewnol (Unedau 1 a 2), sy'n destun proses sicrhau ansawdd UAL Awarding Body<br>> un uned wedi'i hasesu a'i dilysu'n fewnol (Uned 3) a gaiff ei graddio gan y ganolfan a'i safoni'n allanol gan UAL Awarding Body. |
| **Yn gymwys i gael cyllid** | Fe'i dyluniwyd i fodloni gofynion cyllido:<br>> rhaglen astudio 16–19<br>> Lifelong Learning Entitlement |
| **Ble caiff ei gynnig** | Cymru, Lloegr, yr Alban, Gogledd Iwerddon |

# Adran 2
# Trosolwg o'r cymhwyster

## 2.1 Diben y cymhwyster

Mae Diploma Sylfaen Lefel 3 UAL mewn Celf a Dylunio yn gymhwyster allweddol sy'n hwyluso myfyrwyr i bontio rhwng addysg gyffredinol ac addysg arbenigol ym maes celf a dylunio. Mae hyn yn galluogi myfyrwyr i wneud penderfyniad gwybodus wrth wneud cais i addysg uwch neu wrth iddynt geisio gwaith mewn diwydiant cysylltiedig.

Felly mae'r rhaglen yn adeiladu ar brofiad blaenorol myfyrwyr, gan gysylltu sgiliau a ddysgwyd eisoes â syniadau a heriau, a fydd yn eu hannog i fod yn fwy annibynnol ac yn eu galluogi i ddangos dealltwriaeth lawn o'r safonau perthnasol y mae eu hangen er mwyn symud ymlaen i addysg uwch neu lwybr gyrfa arall.

Nid oes cyfyngiad amser ar y cymhwyster, ond fel arfer bydd yn cael ei gwblhau dros gyfnod o 12 mis. Gellir ei gyflwyno hefyd fel dewis rhan-amser dros gyfnod o 24 mis.

**Beth yw nodau'r cymhwyster hwn?**

Nodau'r cymhwyster hwn yw galluogi myfyrwyr i:

- Ddangos ymwybyddiaeth o'r gwahanol bersbectifau, ymagweddau ac ystyriaethau moesegol o fewn ymarfer creadigol amrywiol
- Ymchwilio, dadansoddi a gwerthuso gwybodaeth berthnasol fel rhan o'u hymarfer creadigol
- Deall, addasu a defnyddio dulliau a sgiliau priodol ac ymarferol mewn ffordd ddiogel ar gyfer ymarfer a chynhyrchu creadigol
- Archwilio datrysiadau ar gyfer problemau cymhleth trwy ddefnyddio dealltwriaeth ymarferol, ddamcaniaethol a thechnegol
- Cymryd cyfrifoldeb dros ymchwil, cynllunio a rheoli amser er mwyn asesu a gweithredu cyfleoedd dilyniant
- Defnyddio sgiliau gwerthuso ac adfyfyrio beirniadol i gymryd cyfrifoldeb dros eu dysgu, eu datblygiad a'u penderfyniadau eu hunain
- Cyfathrebu a chyflwyno syniadau ac ymarfer creadigol yn effeithiol i gynulleidfaoedd priodol.

**Talulla Purchess, Oxford Brookes University**



**Beth fydd y cymhwyster yn ei gwmpasu?**
Mae'r cymhwyster yn cynnwys tair uned orfodol.

**Uned 1: Ymchwiliad Diagnostig i Ymarfer Creadigol**
Yn yr uned hon, bydd myfyrwyr yn cynnal ymchwiliad diagnostig i iaith weledol ac ymarferion creadigol. Mae'r ymchwiliad archwiliadol hwn yn caniatáu i fyfyrwyr ymgyfarwyddo ag amrywiaeth eang o ddisgyblaethau creadigol (ym maes celf, dylunio, crefft a'r cyfryngau) ac arbrofi o'u mewn, fel rhan o'u taith at arbenigo yn Uned 2, neu er mwyn atgyfnerthu hynny.

**Uned 2: Datblygu Ymarfer Arbenigol**
Bydd yr uned hon yn rhoi'r cyfle i fyfyrwyr ystyried y wybodaeth, y sgiliau a'r ymarferion y maent wedi'u datblygu yn Uned 1 y cymhwyster, a diffinio eu huchelgeisiau creadigol drwy eu hannog i ymwneud ag amrywiaeth o weithgareddau mewn ffordd gyfannol, a fydd yn cefnogi ac yn lleoli eu hymdrechion creadigol o fewn eu dewis o ymarfer arbenigol, ac yn cynnig cyd-destun ar eu cyfer.

**Uned 3: Atgyfnerthu Ymarfer**
Nod yr uned hon yw rhoi cyfle i fyfyrwyr gymryd cyfrifoldeb dros eu dysgu eu hunain a dangos cyflawniad drwy gychwyn, ymchwilio, cwblhau a gwerthuso cynnig prosiect, ynghyd â gwireddu'r prosiect, a hynny'n annibynnol ac mewn cyd-destun proffesiynol o'u dewis.

Rhaid i fyfyrwyr ennill gradd Llwyddo ym mhob un o'r tair uned orfodol er mwyn ennill y cymhwyster.

## 2.2 Gofynion mynediad

Nid oes unrhyw ofynion mynediad ffurfiol ar gyfer y cymhwyster hwn. Fodd bynnag, mae UAL Awarding Body yn argymell y dylai fod gan fyfyrwyr y canlynol o leiaf:

> 5 TGAU gradd 4 neu radd C, gan gynnwys Mathemateg a Saesneg
> Un cymhwyster Safon Uwch neu gymhwyster Lefel 3 cyfatebol, yn ddelfrydol mewn pwnc creadigol perthnasol.


Fodd bynnag, caiff y ganolfan bennu'r gofynion mynediad, oherwydd gall myfyrwyr ddangos addewid ym maes celf a dylunio heb fod ganddynt gymwysterau ffurfiol mewn pynciau creadigol. Os yw myfyrwyr yn dangos addewid mewn celf, dylunio neu'r cyfryngau ond heb gymhwyster TGAU mewn Mathemateg a/neu Saesneg, caiff canolfannau gyflwyno'r pynciau hyn ochr yn ochr â rhaglen Diploma Sylfaen UAL mewn Celf a Dylunio.

Disgwylir i fyfyrwyr rhyngwladol ddangos bod ganddynt lefel dda o Saesneg ysgrifenedig a llafar gyda sgôr IELTS (neu gymhwyster cyfatebol) o 5.0 o leiaf.

## 2.3 Cynefino

Dylai canolfannau roi sesiynau cynefino i'w myfyrwyr, gan sicrhau:

> Y rhoddir llawlyfr cwrs ac unrhyw ddeunyddiau atodol eraill i hwyluso dysgu effeithiol
> Bod y trefniadau amserlennu'n glir
> Y darperir systemau tiwtora academaidd
> Y canfyddir anghenion cefnogi dysgu ac y darperir ar eu cyfer fel y bo'n briodol
> Y caiff strwythurau'r cyrsiau a'r gofynion asesu eu hesbonio
> Y caiff rheoliadau a gweithdrefnau iechyd a diogelwch eu hegluro.



**Lily Dyson, Bristol School of Art**

## 2.4 Cynllunio'r rhaglen

Mae UAL Awarding Body yn cefnogi dulliau unigol o ddylunio a chyflwyno rhaglenni o fewn cyd-destun ehangach amcanion a deilliannau dysgu'r cymhwyster. O'r herwydd, mae'r cymhwyster wedi'i ysgrifennu gyda'r hyblygrwydd i gefnogi amrywiaeth eang o opsiynau ar gyfer cyflwyno.

Mae modd defnyddio model cyflwyno amlddisgyblaethol neu fodel mwy arbenigol ar gyfer y cymhwyster. Er enghraifft, efallai yr hoffai canolfan gynnal cwrs sy'n rhoi profiad eang i fyfyrwyr o wahanol agweddau ar ymarfer creadigol cyn iddynt ddewis eu maes arbenigedd, neu efallai yr hoffai lunio cwricwlwm sy'n canolbwyntio ar un ddisgyblaeth arbenigol benodol.

Ymysg yr enghreifftiau o ymarferion ac arbenigeddau creadigol penodol, mae:

> Celfyddyd gain: er enghraifft, lluniadu, arlunio, cyfryngau cymysg, cerflunio, cerameg, gosodiadau, gwneud printiau, delweddau symudol (fideo, ffilm, animeiddio), ffotograffiaeth, a chelfyddyd perfformio
> Y celfyddydau rhyngweithiol: er enghraifft, cyfryngau rhyngweithiol gan gynnwys dylunio gwefannau, apiau a gemau
> Cyfathrebu drwy graffeg: er enghraifft, hysbysebu, dylunio pecynnu, dylunio ar gyfer print, darlunio, graffeg cyfathrebu, brandio, amlgyfryngau, graffeg symudiad, dylunio ar gyfer ffilm neu deledu
> Dylunio ffasiwn/tecstilau: er enghraifft, dylunio ffasiwn, cyfathrebu ym maes ffasiwn, steilio, brandio, darlunio ffasiwn, tecstilau ffasiwn, dylunio gwisgoedd, tecstilau digidol, defnyddiau wedi'u printio a/neu eu llifo, tecstilau'r cartref, papur wal, dylunio mewnol, tecstilau wedi'u lluniadu, tecstilau celf a thecstilau gosod

- Dylunio tri-dimensiwn: er enghraifft, cerameg, cerflunio, dylunio arddangosfeydd, dylunio ar gyfer y theatr, teledu a ffilm, dylunio mewnol, dylunio cynnyrch, dylunio amgylcheddol, dylunio pensaernïol, gemwaith/addurniadau'r corff, a dylunio digidol 3-dimensiwn
- Ffotograffiaeth/cyfryngau'r lens: er enghraifft, portreadaeth, ffotograffiaeth tirlun, ffotograffiaeth bywyd llonydd, ffotograffiaeth ddogfennol, ffotonewyddiaduraeth, ffotograffiaeth ffasiwn, delweddaeth arbrofol, amlgyfryngau, gosodiadau ffotograffig a delweddau symudol (fideo, ffilm, animeiddio)
- Y cyfryngau: er enghraifft, teledu, radio, print, fideo, sain, cyfryngau digidol, gemau cyfrifiadur, ffotograffiaeth, hysbysebu a chyhoeddi
- Curadu a rheoli arddangosfeydd: er enghraifft, hanes a chadwraeth, casgliadau (preifat, cyhoeddus, digidol), orielau a diwylliant gweledol

Wrth i'r rhaglen fynd rhagddi, rhaid i fyfyrwyr allu dangos cyflawniad o ran dysgu, arsylwi a dadansoddi, yn ogystal â phrofiad ymarferol mewn amrywiaeth o ymarferion creadigol, ochr yn ochr â gallu cynyddol i gyfosod eu profiadau mewn ffordd gydlynol wrth baratoi ar gyfer y camau nesaf yn eu datblygiad proffesiynol. Rhaid i ganolfannau ddatblygu sylfaen eu myfyrwyr o sgiliau sy'n cydnabod y gydberthynas rhwng y beirniadol, y damcaniaethol a'r ymarferol a'r berthynas rhwng datblygiad eu syniadau a'u gwaith a'r dewisiadau a wnânt ynghylch dilyniant yn y dyfodol.

Dylai canolfannau sy'n bwriadu cyflwyno'r cymhwyster hwn:

- Ddarllen ac ymgyfarwyddo â manylebau'r unedau a'r deunyddiau atodol cyn dylunio rhaglen cwrs, gan gynnwys strwythur y cymhwyster, y cynnwys, y deilliannau dysgu, a'r trefniadau asesu a sicrhau ansawdd
- Bod yn gymwys yn alwedigaethol a meddu ar wybodaeth o'r maes pwnc. Rhaid i'r wybodaeth hon fod at yr un lefel neu'n uwch na'r cymhwyster sy'n cael ei gyflwyno
- Meddu ar brofiad diweddar a pherthnasol o ddiwydiant (lle bo'n briodol) yn y maes penodol y maent yn cyflwyno ynddo
- Meddu ar brofiad credadwy o addysgu a/neu ddarparu hyfforddiant
- Ymgymryd â gweithgareddau sy'n cyfrannu at eu datblygiad proffesiynol parhaus (DPP)
- Bod â mynediad at yr adnoddau ffisegol y mae eu hangen i gefnogi'r gwaith o gyflwyno'r rhaglen ac o asesu gwybodaeth a sgiliau, a ddylai fod at safon diwydiant. Lle bo angen adnoddau penodol, mae'r rhain wedi'u nodi ym manylebau'r unedau.

Nid oes disgwyl i ganolfannau sy'n cyflwyno'r cymhwyster hwn ddarparu'r un rhaglenni yn union, ond bydd gofyn iddynt gynnwys yr un deilliannau dysgu ar draws yr holl ymarferion creadigol mewn canolfan a sicrhau dilyniant cydlynol (patrymau addysgu, dysgu ac asesu sy'n ddi-dor, yn rhyngweithiol ac yn integredig), yn hytrach na dull tameidiog ar draws nifer o ddisgyblaethau. Rhagwelir y bydd canolfannau'n darparu adnoddau ar gyfer addysgu o fewn meysydd ymarfer dau-ddimensiwn, tri-dimensiwn a phedwar-dimensiwn.

## 2.5 Datblygiad personol a phroffesiynol

Bydd Diploma Sylfaen Lefel 3 UAL mewn Celf a Dylunio yn rhoi cyfleoedd i fyfyrwyr ddatblygu a defnyddio sgiliau eang a throsglwyddadwy trwy annog ethos o ddatblygiad personol a phroffesiynol. Yn benodol, by dd y rhaglen yn caniatáu i fyfyrwyr ddangos:

> Mentergarwch
> Ymholi annibynnol
> Meddwl yn greadigol
> Rheoli prosiectau
> Dysgu adfyfyriol
> Gweithio mewn tîm
> Hunanreolaeth
> Cyfranogiad effeithiol
> Cyfrifoldeb cymdeithasol
> Ymwybyddiaeth amgylcheddol
> Moeseg a chynaliadwyedd
> Datrys problemau
> Cyfathrebu
> Cyflwyno
> Ymchwil
> Sgiliau digidol
> Llythrennedd
> Rhifedd.

Cyfeiriwch hefyd at y ddogfen ar y Fframwaith Priodoleddau Creadigol ar gyfer y cymhwyster hwn i gael rhagor o wybodaeth am briodoleddau personol a chreadigol.

## 2.6 Cyfleoedd dilyniant

Bydd gan fyfyrwyr sy'n cwblhau Diploma Sylfaen Lefel 3 UAL mewn Celf a Dylunio y sgiliau a'r ddealltwriaeth y mae eu hangen i symud ymlaen i'r canlynol:

Addysg uwch – bwriedir i'r cymhwyster Lefel 3 hwn gario pwyntiau UCAS a chael ei gydnabod gan ddarparwyr addysg uwch fel cymhwyster sy'n bodloni gofynion derbyn amrywiaeth o gyrsiau BA (Anrhydedd).

Cyflogaeth neu brentisiaethau – gall y sgiliau a ddatblygir drwy gyfrwng y cymhwyster hwn gefnogi myfyrwyr i symud ymlaen i rolau lefel mynediad priodol, rhaglenni hyfforddiant neu brentisiaethau uwch, neu i hunangyflogaeth yn y sector creadigol.

Dylai myfyrwyr wirio gofynion mynediad rhaglenni gradd gyda darparwyr penodol addysg uwch bob amser.

## 2.7 Ardystio

Ar ôl cwblhau'r cymhwyster hwn, bydd myfyrwyr yn ennill tystysgrif ar gyfer y cymhwyster ganlynol:

> Diploma Sylfaen Lefel 3 UAL mewn Celf a Dylunio (603/3138/0)

Hiten Bhundia, Hertford Regional College



# Adran 3
# Asesu a safoni

Asesu yw'r broses o fesur sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth myfyrwyr yn erbyn y safonau a bennwyd ar gyfer cymhwyster.

**Gofynion asesu:**
> Caiff Uned 1 ac Uned 2 eu hasesu'n fewnol a'u dilysu'n fewnol yn erbyn y deilliannau dysgu a'r grid graddio ar gyfer yr unedau hynny.
> Caiff Uned 3 ei hasesu'n fewnol, ei dilysu'n fewnol a'i safoni'n allanol yn erbyn y deilliannau dysgu a'r grid graddio ar gyfer yr uned.



Mona De Lucas,
Leeds Arts University

## 3.1 Asesu mewnol

Mae UAL Awarding Body yn ei gwneud yn ofynnol i bob canolfan ddatblygu aseiniadau sy'n addas at y diben, sy'n briodol ar gyfer y dull asesu a ddewisir ac sy'n gyson â'r fanyleb ar gyfer y cymhwyster.

Er mwyn helpu canolfannau i osod aseiniadau priodol, mae UAL Awarding Body wedi darparu'r canllawiau isod:

**3.1.1 Dylunio'r asesiad**
Dylai canolfannau ddatblygu a gosod eu haseiniadau eu hunain ar gyfer yr unedau a asesir yn fewnol. Mae'n hanfodol bod tiwtoriaid/aseswyr yn gyfarwydd â'r cynnwys dangosol, y deilliannau dysgu a'r grid graddio, cyn dylunio'r aseiniad.

Pan fo canolfannau'n datblygu aseiniad, rhaid iddynt sicrhau'r canlynol:
> Ei fod yn ddilys, yn ddibynadwy, yn deg ac yn addas at y diben
> Bod cynnwys yr aseiniad yn gyson â'r fanyleb
> Eu bod yn pennu dulliau rheoli ar gyfer amser, adnoddau, goruchwyliaeth a chydweithio ar gyfer yr holl weithgareddau
> Bod dyluniad yr aseiniad yn caniatáu ar gyfer dilysu gwaith annibynnol a gwaith grŵp fel gwaith neu gyfraniad yr unigolyn ei hun
> Eu bod yn cynnwys lefel ddigonol o oruchwyliaeth i sicrhau eu bod yn gallu dilysu'r dystiolaeth a gynhyrchir gan bob myfyriwr

- Bod pob aseiniad a phrosiect, boed yn un wedi'i ddylunio gan y ganolfan neu'r myfyriwr, yn rhoi cyfleoedd priodol i'r myfyriwr gynhyrchu'r dystiolaeth y mae ei hangen i fodloni'r deilliannau dysgu. Cyfrifoldeb y ganolfan yw sicrhau bod prosiectau myfyrwyr yn eu galluogi i gyflawni'r deilliannau dysgu.

Gall canolfannau ddewis lansio gweithgareddau asesu ar unrhyw adeg yn ystod y gwaith o gyflwyno cynnwys yr uned. Fodd bynnag, rhaid bod gan fyfyrwyr ddealltwriaeth drylwyr o gynnwys perthnasol yr uned cyn dechrau'r asesiad. O ganlyniad, bydd angen i ganolfannau sicrhau eu bod yn gosod pob asesiad yn effeithiol, ac yn cynllunio'n ofalus er mwyn sicrhau yr ymdrinnir â holl gynnwys yr uned mewn modd amserol.

Rhaid i UAL Awarding Body fod â throsolwg dros ansawdd pob asesiad er mwyn sicrhau bod modd cymharu a bod dilysrwydd ar draws pob canolfan a bod y penderfyniadau asesu a wneir yn deg, yn ddilys, yn ddibynadwy ac yn ddiduedd.

Cyflawnir hyn drwy'r broses safoni allanol. Mae safonwyr allanol hyfforddedig yn safoni penderfyniadau asesu a graddio i sicrhau eu bod yn unol â'r safonau gofynnol. I gael rhagor o wybodaeth am safoni, gweler yr adran Safoni Allanol yn y fanyleb hon.

### 3.1.2 Gosod yr asesiad

Gall canolfannau ddewis asesu pob uned drwy gyfrwng un prosiect parhaus neu gyfres o aseiniadau unigol. Yn y naill achos neu'r llall, rhaid iddynt bennu'r dulliau rheoli ar gyfer yr asesiad gan gynnwys:

- Rhoi amserlen glir gan gynnwys pennu terfynau amser ar gyfer pob gweithgaredd unigol a'r asesiad yn ei gyfanrwydd
- Awgrymu adnoddau, offer a deunyddiau priodol a chyfeirio at ble gellir dod o hyd i'r rhain
- Pennu ble mae'n rhaid rhoi dulliau rheoli adnoddau yn eu lle a pha adnoddau y dylid eu darparu i bob myfyriwr
- Manylu ar y gofynion o ran faint o dystiolaeth y mae ei hangen a pha fath
- Rhoi manylion penodol ynghylch ble a phryd mae angen goruchwyliaeth uniongyrchol yn yr asesiad
- Rhoi arweiniad i fyfyrwyr ar gydweithio, gan gynnwys ble a phryd y caniateir cydweithio.

Yn ogystal, dylent:

- Gynnig arweiniad i fyfyrwyr ar asesu fel eu bod yn gwybod ar beth y cânt eu hasesu a beth yw'r disgwyliadau arnynt
- Rhoi manylion am ble gall myfyrwyr ddod o hyd i gymorth ychwanegol os oes ei angen arnynt
- Trefnu cyfleoedd rheolaidd i diwtoriaid a chydfyfyrwyr adolygu'r gwaith hyd yma.

Dylid cwblhau gwaith ar gyfer unedau a asesir yn fewnol yn ystod amser arferol y cwricwlwm, a dylai'r tiwtor/asesydd ei oruchwylio a'i raddio. Gall rhywfaint o'r gwaith, yn ôl ei natur, gael ei wneud y tu allan i'r ganolfan, er enghraifft, ymchwil, adeiladu portffolio, ac ati. Fel yn achos yr holl waith a asesir gan y ganolfan, rhaid i'r tiwtor/asesydd fod yn hyderus mai gwaith y myfyriwr ei hun yw'r gwaith a gyflwynir i'w asesu. Mae rhwydd hynt i fyfyrwyr ddiwygio ac ailddrafftio gwaith heb gyfranogiad y tiwtor/asesydd cyn cyflwyno'r gwaith i'w asesu.

I gael rhagor o wybodaeth am asesu, gweler Canllawiau Cyflwyno UAL ar gyfer y cymhwyster hwn.

## 3.2 Dilysu mewnol

Dilysu mewnol yw'r broses o sicrhau bod pawb sy'n asesu cymhwyster penodol mewn canolfan yn asesu at yr un safonau.

Rhaid bod gan ganolfannau fframwaith sicrhau ansawdd mewnol sefydledig i sicrhau bod trefniadau cymeradwyo, sicrhau ansawdd a chontractiol UAL Awarding Body yn cael eu bodloni. Cyfrifoldeb dilyswyr mewnol yw sicrhau bod penderfyniadau aseswyr yn cael eu samplu a'u monitro er mwyn sicrhau cysondeb a thegwch a bod yr asesiadau a osodir yn briodol ac ar y lefel ofynnol. Mae dilyswyr mewnol hefyd yn gyfrifol am gefnogi aseswyr drwy gynnig cyngor ac arweiniad. Bydd dilyswyr mewnol yn dilyn strategaeth samplu'r ganolfan ei hun wrth ddewis y sampl i'w ddilysu'n fewnol a thros amser bydd yn rhaid iddynt gynnwys tystiolaeth o ystod lawn o waith, cyflawniad myfyrwyr a phenderfyniadau a wnaed gan yr holl staff sydd â chyfrifoldeb asesu.

Cydnabyddir bod gwahanol ganolfannau'n defnyddio gwahanol ddulliau a thermau sy'n benodol i'w diwylliant nhw. Rhaid i ganolfannau sicrhau bod eu methodolegau yn ddigon cadarn ac yn bodloni'r safonau a osodir gan UAL Awarding Body.

## 3.3 Safoni allanol

Mae a wnelo safoni allanol yn unig â gwerthuso dilysrwydd penderfyniadau asesu canolfannau trwy safoni yn allanol y gwaith a asesir ac a ddilysir yn fewnol.

Yn ogystal â safoni asesiadau a phenderfyniadau graddio ar gyfer unedau a safonir yn allanol, mae'n ofynnol i aseswyr allanol gadarnhau bod yr asesiadau mewnol ar gyfer unedau a asesir yn fewnol yn rhai cadarn a bod penderfyniadau asesu yn deg, yn ddilys, yn ddibynadwy ac yn ddiduedd.

Mae gwaith safoni allanol UAL Awarding Body ar asesiadau mewnol yn cael ei gynnal o leiaf un waith y flwyddyn er mwyn sicrhau bod asesiadau a phenderfyniadau graddio yn gydnaws â'r safonau gofynnol.




Jo Kalaja, Oxford Brookes University

## 3.4 Asesu synoptig

Mae asesu synoptig yn nodwedd o'r cymhwyster hwn ac mae'n gofyn i fyfyrwyr ddefnyddio detholiad priodol o'r sgiliau, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth a enillwyd trwy'r holl unedau sy'n rhan o'r cymhwyster, a hynny mewn ffordd integredig, gan eu rhoi ar waith mewn tasg neu dasgau allweddol.

Mae'r cymhwyster hwn yn cyflwyno llawer o gyfleoedd i fyfyrwyr ddefnyddio eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u sgiliau mewn ffordd integredig a rhoi agweddau y maent wedi ymdrin â nhw mewn un uned ar waith mewn unedau eraill. Fodd bynnag, caiff myfyrwyr eu hasesu'n ffurfiol yn synoptig yn Uned 3: Atgyfnerthu Ymarfer.

Yn yr uned hon, bydd gofyn i fyfyrwyr roi'r sgiliau, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth a ddatblygwyd yn Unedau 1 a 2 ar waith er mwyn cymryd cyfrifoldeb dros eu dysgu eu hunain a dangos cyflawniad drwy gychwyn, ymchwilio, cwblhau a gwerthuso cynnig prosiect, ynghyd â gwireddu'r prosiect, a hynny'n annibynnol ac mewn cyd-destun proffesiynol o'u dewis.

Er mwyn cefnogi datblygiad ymagwedd synoptig, anogir tiwtoriaid i atgyfnerthu'r cysylltiadau rhwng elfennau o'r cwrs yn gyson, fel bod eu myfyrwyr yn gweld y maes astudio fel rhaglen ddysgu gyfannol.



**Elizabeth Parsons,**
**Cwrs Sylfaen Celf a Dylunio**

# Adran 4
# Graddio

## 4.1 Graddio

Diploma Sylfaen Lefel 3 mewn Celf a Dylunio

> I ennill y Diploma Lefel 3 mewn Celf a Dylunio rhaid i fyfyrwyr gymryd yr unedau canlynol: Uned 1, Uned 2 ac Uned 3.
> Rhaid ennill gradd Llwyddo yn Uned 1 ac Uned 2 cyn symud ymlaen i'r uned derfynol, Uned 3.
> Caiff y radd gyffredinol ar gyfer y cymhwyster ei phennu gan gyflawniad y myfyriwr yn Uned 3, sy'n defnyddio strwythur Methu/Llwyddo/Teilyngdod/Rhagoriaeth.



**Ollie Dye, Abingdon and Witney College**

## 4.2 Graddio Uned 3: Atgyfnerthu Ymarfer

Rhaid i aseswyr canolfannau farnu ansawdd tystiolaeth asesu'r myfyrwyr yn erbyn y disgrifyddion yn y grid graddio er mwyn dyfarnu gradd Methu, Llwyddo, Teilyngdod neu Ragoriaeth.

Rhoddir y graddau yn ôl y safon uchaf y bernir bod myfyrwyr wedi cyflwyno tystiolaeth i fodloni'r holl ddeilliannau dysgu a disgrifyddion ar ei chyfer.

Felly:

> I ennill gradd Llwyddo (Ll), rhaid i fyfyrwyr gyflwyno tystiolaeth ar gyfer yr holl ddeilliannau dysgu a disgrifyddion hyd at y safon ar gyfer Llwyddo.
> I ennill gradd Teilyngdod (T), rhaid i fyfyrwyr gyflwyno tystiolaeth ar gyfer yr holl ddeilliannau dysgu a disgrifyddion hyd at y safon ar gyfer Teilyngdod.
> I ennill gradd Rhagoriaeth (Rh), rhaid i fyfyrwyr gyflwyno tystiolaeth ar gyfer yr holl ddeilliannau dysgu a disgrifyddion hyd at y safon ar gyfer Rhagoriaeth.

Bydd myfyrwyr sy'n methu â chyflwyno tystiolaeth sy'n bodloni'r holl ddeilliannau dysgu a'r holl ddisgrifyddion hyd at safon Llwyddo yn cael eu cyfeirio ac fe gânt un cyfle i glirio'r cyfeiriad.

Os bydd myfyrwyr wedi'u cyfeirio, rhaid i'r ganolfan roi gwybod i'r myfyrwyr hynny am y deilliant/deilliannau dysgu a'r disgrifyddion y maent wedi methu â rhoi tystiolaeth ar eu cyfer a sicrhau eu bod yn cael cyfle i weithio tuag at gyflawni'r deilliannau dysgu a'r disgrifyddion hynny o fewn amserlen addas.

Ni roddir gradd uwch na Llwyddo ar gyfer cyfeiriadau a gliriwyd yn llwyddiannus. Lle bo modd, dylid clirio cyfeiriadau cyn safoni'n allanol.

Bydd myfyrwyr a gaiff eu cyfeirio ac sy'n dal i fethu â bodloni'r holl ddeilliannau dysgu at safon Llwyddo yn cael gradd Methu (M).



**Llyfr braslunio gan Cynthia Porta Fernandez, Diploma Sylfaen mewn Celf a Dylunio © Alys Tomlinson**

## 4.3 Defnyddio'r Grid Graddio


Mae'r grid graddio yn cwmpasu saith o ddisgrifyddion (e.e. Cyd-destun, Ymchwil, Datrys Problemau, ac ati).

Mae pob disgrifydd yn disgrifio nodweddion neu rinweddau sy'n nodweddiadol o berfformiad at safon Llwyddo, Teilyngdod a Rhagoriaeth.

Rhaid i aseswyr farnu'r dystiolaeth a gyflwyna'r myfyriwr er mwyn pennu'r radd ar gyfer y deilliant dysgu. Gwneir hyn drwy wneud asesiad cyfannol o'r dystiolaeth a rodda'r myfyriwr ar gyfer y deilliannau dysgu yn erbyn y disgrifyddion yn y grid graddio.

Mae UAL Awarding Body wedi darparu mapio dangosol yn dangos sut mae'r disgrifyddion yn cysylltu â'r deilliannau dysgu.

Rhoddir y radd derfynol ar gyfer uned ar sail bod gwaith myfyriwr yn cyflawni 100% o'r holl ddeilliannau dysgu a'r holl ddisgrifyddion at safon Llwyddo, Teilyngdod neu Anrhydedd. Os bydd myfyriwr yn cyflawni cyfuniad o raddau ar gyfer pob un o'r deilliannau dysgu, rhoddir y radd isaf ar gyfer yr uned yn ei chyfanrwydd.



Daniel Miles Williams, De Montfort University

# Adran 5
# **Strwythur a chynnwys y cymhwyster**

## 5.1 Deall strwythur y cymhwyster a'r unedau

| | |
|---|---|
| **Teitl yr uned** | Mae'r teitl yn rhoi crynodeb byr o gynnwys y cwrs. |
| **Oriau Dysgu dan Arweiniad (ODA)** | Mae amser dysgu dan arweiniad yn cynrychioli'r oriau y mae myfyrwyr yn cael eu haddysgu neu eu cyfarwyddo gan – neu y maent fel arall yn cymryd rhan mewn addysg neu hyfforddiant o dan arweiniad neu oruchwyliaeth uniongyrchol gan – ddarlithydd, goruchwyliwr, tiwtor neu ddarparwr priodol arall o addysg neu hyfforddiant. Mae'r amcangyfrif hwn yn cynnwys yr oriau a gaiff eu hasesu, os bydd yr asesiad yn digwydd o dan arweiniad neu oruchwyliaeth uniongyrchol darlithydd, goruchwyliwr, tiwtor neu ddarparwr priodol arall o addysg neu hyfforddiant. |
| **Cyfanswm Amser y Cymhwyster (CAC) Cyfanswm Amser yr Uned (CAU)** | Mae Cyfanswm Amser y Cymhwyster (CAC) a Chyfanswm Amser yr Uned (CAU) yn cynrychioli amcangyfrif o faint o amser y bydd gofyn i fyfyrwyr ei roi er mwyn cwblhau'r cymhwyster neu'r uned a dangos eu bod wedi'u cyflawni.<br>Mae CAC/CAU yn cynnwys y canlynol:<br>Nifer yr oriau a neilltuwyd ar gyfer Dysgu dan Arweiniad, a nifer yr oriau a neilltuwyd ar gyfer dysgu hunangyfeiriedig. Hynny yw, dysgu nad yw o dan arweiniad neu oruchwyliaeth uniongyrchol darlithydd, goruchwyliwr, tiwtor neu ddarparwr priodol arall o addysg neu hyfforddiant. |
| **Cyflwyniad i'r uned** | Crynodeb o nod yr uned, yn rhoi gwybod i fyfyrwyr beth allant ddisgwyl ei ddysgu a pham gallai'r uned fod o ddiddordeb iddyn nhw. |
| **Deilliannau dysgu (DD)** | Mae deilliannau dysgu yn datgan beth ddylai myfyrwyr ei wybod, ei ddeall neu allu ei wneud o ganlyniad i gwblhau'r uned(au)/cymhwyster. |

## 5.1 Deall strwythur y cymhwyster a'r unedau
– Parhad

| | |
|---|---|
| **Cynnwys dangosol** | Mae cynnwys dangosol yn diffinio hyd a lled y dysgu ar gyfer pob uned. Disgwylir y bydd yr holl gynnwys yn cael ei gyflwyno yn ystod y rhaglen ddysgu. Nid yw'n ofynnol asesu pob agwedd ar y cynnwys, gan y bydd disgwyl i fyfyrwyr roi'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau a enillwyd yn ystod y broses ddysgu ar waith ar gyfer nodweddion penodol cyd-destun yr asesiad. |
| **Grid graddio** | Defnyddir y rhain i bennu'r radd y mae myfyrwyr yn ei hennill. Bydd canolfannau, myfyrwyr ac UAL Awarding Body yn gallu llunio barn ar berfformiad yn seiliedig ar y wybodaeth sydd yn y grid graddio. |

**Harry Currier, Cwrs Sylfaen
Celf a Dylunio**



## 5.2 Strwythur y cymhwyster

### Diploma Sylfaen Lefel 3 UAL mewn Celf a Dylunio

Er mwyn ennill Diploma Sylfaen Lefel 3 UAL mewn Celf a Dylunio, rhaid i fyfyrwyr ennill gradd Llwyddo yn yr unedau gorfodol canlynol:

| Teitl yr uned | Lefel | ODA | CAU | Credydau | Asesu | Gradd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Uned 1 **Ymchwiliad Diagnostig i Ymarfer Creadigol** | 3 | 190 | 290 | 29 | Mewnol | Llwyddo |
| Uned 2 **Datblygu Ymarfer Arbenigol** | 3 | 310 | 460 | 46 | Mewnol | Llwyddo |
| Uned 3 **Atgyfnerthu Ymarfer** | 4 | 180 | 450 | 45 | Asesiad mewnol synoptig | Ll/T/Rh |
| **Cyfanswm Amser y Cymhwyster** | | **680** | **1200** | **120** | | |

## 5.3 Sylwadau ar y cymhwyster

Mae cymwysterau UAL Awarding Body wedi'u nodweddu gan gywirdeb academaidd a diwylliant dysgu gyda'r myfyriwr yn ganolbwynt, sy'n cwmpasu: egwyddorion dehongli; ymarferion archwiliadol ac ymchwiliadol; ymchwil gyd-destunol ac arbrofi gyda deunyddiau. Cyflwynir y rhain drwy gyfres gydlynol ac integredig o weithgareddau dysgu a fydd yn galluogi myfyrwyr i adnabod eu cryfderau a'u rhinweddau, ac i wneud y gorau o'r rhain.

Disgwylir i dimau addysgu fod yn arloesol wrth gyflwyno, gan ganfod arbenigeddau disgyblaethol penodol ar yr un pryd â sicrhau y cyflawnir y swyddogaeth graidd o drosi galluoedd myfyrwyr yn nodau y gellir eu gwireddu.

Mae'r rhaglen hon wedi'i nodweddu gan ddysgu arbrofol ac integredig trwy brofiad, gan ddibynnu ar ddefnyddio a throsglwyddo sgiliau ymarferol ond gan hefyd osod gwerth ar y canlyniadau damweiniol a phellgyrhaeddol sy'n gallu digwydd, a chydnabod egwyddorion cyffredin a nodweddion arbennig disgyblaethau pwnc ym maes celf a dylunio.

Dylid cyflwyno'r cyrsiau gan adeiladu ar brofiad blaenorol myfyrwyr, gan gysylltu sgiliau a ddysgwyd eisoes â syniadau a heriau, a fydd yn cynyddu eu hannibyniaeth feirniadol ac yn eu galluogi i ddiffinio'u huchelgeisiau artistig a lleoli eu cysyniad creadigol.

Bydd myfyrwyr yn datblygu sylfaen ymarfer, yn gyntaf drwy broses ddiagnostig ac, wrth i'r cwrs fynd rhagddo, drwy ymagwedd fwy arbenigol. Mae hyn yn cydnabod y gydberthynas rhwng y beirniadol, y damcaniaethol a'r ymarferol a'r berthynas rhwng datblygiad eu syniadau a'u gwaith a'r dewisiadau a wnânt ynghylch dilyniant yn y dyfodol.



**Ebrahim Patel, Blackburn College**

Uned 1

# Ymchwiliad Diagnostig i Ymarfer Creadigol

## Trosolwg o'r uned

| | |
|---|---|
| **Lefel** | 3 |
| **ODA** | 190 awr |
| **CAU** | 290 awr |
| **Credydau** | 29 |
| **Asesu** | Wedi'i asesu'n fewnol a'i ddilysu'n fewnol |
| **Gradd** | Methu/Llwyddo |
| **Adnoddau** | Rhaid bod gan ganolfannau yr adnoddau ffisegol i weithredu'r rhaglen yn llwyddiannus, gan gynnwys: darpariaeth ddigonol a hyblyg neu fynediad agored ar gyfer stiwdios a gweithdai celf a dylunio arbenigol sydd â chyfarpar priodol diweddar, cyfleusterau TG, canolfan adnoddau dysgu a chymorth astudio. |

## Cyflwyniad i'r uned

Yn yr uned hon, bydd myfyrwyr yn cynnal ymchwiliad diagnostig i iaith weledol ac ymarferion creadigol. Mae'r ymchwiliad archwiliadol hwn yn caniatáu i fyfyrwyr ymgyfarwyddo ag amrywiaeth o ddisgyblaethau creadigol (celf, dylunio, crefft a'r cyfryngau) ac arbrofi o'u mewn, fel rhan o'u taith at arbenigo yn Uned 2, neu er mwyn atgyfnerthu hynny.

Drwy gydol yr uned, bydd myfyrwyr yn datblygu eu hiaith weledol, eu dulliau ymchwil, eu hymwybyddiaeth gyd-destunol a'u galluoedd gwerthuso er mwyn cefnogi amrywiaeth eang o weithgareddau creadigol. Byddant yn datblygu'r sgiliau y mae eu hangen ar gyfer cynllunio, cofnodi, dadansoddi ac adfyfyrio er mwyn cefnogi a chyfathrebu ymdrechion creadigol, ar yr un pryd â meithrin gwerthfawrogiad o safbwynt a chyd-destun eu hymchwiliadau. Mae'r modd diagnostig yn rhoi cyfle i'r myfyrwyr gael profiad diogel ac effeithiol o amrywiaeth eang o ddeunyddiau, dulliau a thechnolegau celf a dylunio o fewn ymarfer proffesiynol.

## Deilliannau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon yn llwyddiannus, bydd y myfyriwr yn gallu:

| | |
|---|---|
| **DD1** | Defnyddio ac integreiddio dulliau a gweithgareddau ymchwil o fewn ymarfer creadigol a'u rhoi mewn cyd-destun. |
| **DD2** | Adnabod, dewis a defnyddio'n ddiogel ddeunyddiau, dulliau, cyfryngau, offer a thechnolegau priodol mewn perthynas ag amrywiaeth o ymarferion creadigol. |
| **DD3** | Datblygu syniadau, datrys problemau a rhoi strategaethau dysgu ar waith o fewn cyd-destun amrywiaeth o ymarferion creadigol. |
| **DD4** | Deall confensiynau gwerthuso ac adfyfyrio beirniadol a sut cânt eu rhoi ar waith, mewn perthynas ag amrywiaeth o gynulleidfaoedd a dibenion. |



Annie Mellor, Carlisle College

Uned 1

## Ymchwiliad Diagnostig i Ymarfer Creadigol

**Cynnwys dangosol**
Bydd yr uned hon yn rhoi golwg ddiagnostig eang ar y diwydiannau creadigol a fydd yn datblygu dealltwriaeth myfyrwyr o natur gydberthynol pob disgyblaeth. Mae'r uned wedi'i dylunio i roi corff cydlynol o wybodaeth a dealltwriaeth i'r myfyriwr, ochr yn ochr â'r sylfaen eang o sgiliau sy'n gysylltiedig ag amrywiaeth o ymarferion celf, dylunio a'r cyfryngau, er mwyn ehangu a chynnal eu datblygiad proffesiynol. Bydd y mathau o sgiliau ymarferol yn amrywio yn ôl cyd-destun y gwaith a wneir. Rhoddir strwythur digonol a phriodol yn ei le er mwyn cefnogi ac annog uchelgais a mentergarwch, ar yr un pryd â sicrhau bod modd i fyfyrwyr gymryd yr awenau eu hunain i raddau wrth ddewis y pwnc ac i gael gwell eglurder o ran eu nodau hirdymor wrth iddynt symud ymlaen at astudiaethau mwy arbenigol yn Uned 2.

Nid yw cynnwys yr uned hon wedi'i gyfyngu i'r canlynol, ond bydd fel arfer yn cwmpasu:
> Ymchwiliadau i ddulliau ymchwil, gan gynnwys safbwyntiau moesegol
> Dadansoddi ymarfer creadigol
> Rhoi damcaniaeth greadigol ar waith i gefnogi ymarfer
> Ymchwiliadau archwiliadol ac arbrofol i dechnegau, prosesau ac ymarferion creadigol â llaw a/neu ddigidol
> Defnyddio deunyddiau, technegau a phrosesau ar gyfer amrywiaeth o ymarferion creadigol a chynulleidfaoedd
> Ymchwiliadau i'r berthynas rhwng syniadau, iaith weledol a diben.

### Gofynion asesu a thystiolaeth

Caiff yr uned hon ei hasesu'n fewnol a'i dilysu'n fewnol yn erbyn y deilliannau a'r grid graddio ar gyfer yr uned drwy gyfrwng gwaith aseiniad myfyrwyr, ac mae'n destun proses allanol UAL Awarding Body ar gyfer sicrhau ansawdd.

Gall myfyrwyr ddangos bod y deilliannau dysgu wedi'u bodloni mewn amrywiaeth o ffyrdd. Fodd bynnag, mae'n debygol mai portffolio o dystiolaeth fydd y brif ffurf ar dystiolaeth a gynhyrchir.

Nid yw'r dystiolaeth wedi'i rhagnodi ond gallai, er enghraifft, gynnwys:

- Cofnodion o gyngor ac arweiniad
- Cofnodion o waith dadansoddi, adfyfyrio pwrpasol a rheoli eu dysgu a'u cynnydd eu hunain a/neu ddysgu a chynnydd ar y cyd
- Cofnodion o gyfathrebu a chyflwyniadau
- Portffolio gweledol.

Gellir cofnodi'r dystiolaeth mewn llyfrau braslunio llaw a digidol, llyfrau nodiadau, taflenni datblygiad gweledol, deunydd digidol arall, adeiledd au, samplau a dyddiaduron a/neu flogiau adfyfyriol personol, fel y bo'n briodol.

Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr. Dylid annog myfyrwyr i ddatblygu'r dystiolaeth fwyaf priodol i ddangos eu bod wedi cyflawni deilliannau dysgu'r uned.

### Cyflwyno'r uned

Caiff yr uned hon ei chyflwyno drwy gyfrwng amrywiaeth o weithgareddau ac aseiniadau wedi'u strwythuro'n briodol er mwyn ymestyn gwaith archwilio, dealltwriaeth a defnydd myfyrwyr o ddulliau ymchwil, datblygu syniadau a deunyddiau a dulliau, ynghyd â chynllunio, cofnodi, dadansoddi, adfyfyrio a gwerthuso i gefnogi dysgu'r myfyrwyr a'u hymdrechion creadigol.

Bydd beirniadaethau grŵp gyda chydfyfyrwyr a thiwtoriaid, ynghyd â thrafodaethau grŵp, yn hybu dysgu adfyfyriol ac yn mireinio sgiliau meddwl yn feirniadol. Dylid annog myfyrwyr i gadw meddwl agored a bod yn gynyddol annibynnol yn eu hymagwedd at eu dysgu, a bydd disgwyl iddynt gynnal ymchwil annibynnol er mwyn cael dealltwriaeth soffistigedig o'u hymarfer creadigol.

Dylid sicrhau bod cyfleusterau ac adnoddau dysgu ar gael i fyfyrwyr y tu allan i sesiynau a addysgir, a gallai hynny gynnwys: mynediad i ddarlithoedd, trafodaethau, gweithdai, arddangosiadau, ymweliadau addysgol neu ddigwyddiadau ategol eraill.

I gael rhagor o wybodaeth, gweler y Canllawiau Cyflwyno ar gyfer y cymhwyster hwn.

Dylai canolfannau ddilyn dull cyflwyno sy'n cefnogi datblygiad eu myfyrwyr penodol. Dylid ystyried nodau ac uchelgeisiau pob myfyriwr, gan gynnwys y rheiny y nodwyd bod ganddynt anghenion addysgol arbennig, a dylid rhoi trefniadau cefnogi priodol yn eu lle.

### Rhestr ddarllen ac adnoddau

Y ganolfan fydd yn pennu'r rhestrau darllen a'r holl adnoddau cysylltiedig eraill ar gyfer yr uned hon.



Celia Ongley 'Dementer', Diploma Sylfaen Lefel 3 mewn Celf a Dylunio

**Deilliannau dysgu a grid graddio**
Rhoddir gradd Llwyddo neu Fethu ar gyfer yr uned hon, a rhaid llwyddo ynddi cyn symud ymlaen i Uned 2.

Rhaid asesu'r dystiolaeth a gyflwyna myfyrwyr yn erbyn y deilliannau dysgu a'r disgrifyddion ar gyfer Llwyddo. Bydd myfyrwyr sy'n cyflwyno tystiolaeth sy'n methu â chyrraedd y safon ar gyfer Llwyddo yn cael eu cyfeirio. Mae gan y myfyriwr un cyfle i glirio cyfeiriad drwy gyflwyno tystiolaeth ychwanegol o fewn amserlen y mae'r ganolfan yn cytuno arni ac a gadarnheir gan UAL Awarding Body.

Dylid asesu'r dystiolaeth mewn ffordd gyfannol yn erbyn y deilliannau dysgu a'r disgrifyddion. Fodd bynnag, mae'r tabl isod yn dangos sut gellir mapio'r disgrifyddion i'r deilliannau dysgu.

| | Cyd-destun | Ymchwil | Datblygiad Ymarfer Creadigol | Datrys Problemau | Cynllunio, Cynnydd a Chynhyrchu | Gwerthuso ac Adfyfyrio | Cyfathrebu a Chyflwyno Ymarfer Creadigol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **DD1** | Ydy | Ydy | Nac ydy | Nac ydy | Ydy | Nac ydy | Ydy |
| **DD2** | Nac ydy | Ydy | Ydy | Ydy | Nac ydy | Nac ydy | Ydy |
| **DD3** | Ydy | Nac ydy | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy |
| **DD4** | Ydy | Nac ydy | Nac ydy | Nac ydy | Ydy | Ydy | Ydy |

## Grid Graddio

| Disgrifyddion | Methu | Llwyddo |
|---|---|---|
| **1 Cyd-destun**<br>Deall gwybodaeth pwnc a'r egwyddorion sylfaenol a'u rhoi ar waith. | Dealltwriaeth annigonol o wybodaeth pwnc a'r egwyddorion sylfaenol.<br>Diffyg eglurder yn y cyd-destun o ran nodau a diben. | Dealltwriaeth berthnasol o gyd-destun y pwnc wedi'i defnyddio'n briodol i gynnig barn, mynegi nodau ac egluro diben. |
| **2 Ymchwil**<br>Adnabod ac ymchwilio i amrywiaeth o ffynonellau gweledol, academaidd, moesegol a diwylliannol cynradd ac eilaidd. | Tystiolaeth annigonol wedi'i chyflwyno o sut defnyddir ymchwil i lywio a datblygu syniadau. | Gwybodaeth berthnasol wedi'i chasglu, ei dogfennu a'i defnyddio i ddatblygu syniadau. |
| **3 Datblygu Ymarfer Creadigol**<br>Sgiliau i alluogi gwireddu syniadau, sy'n briodol i ymarfer creadigol. | Datblygiad sgiliau a phrosesau heb eu harchwilio na'u dangos.<br>Barnu a gweithredu technegau yn wael ac yn methu â chyfathrebu'r ymarfer creadigol. | Prosesau, sgiliau a gwybodaeth berthnasol wedi'u rhoi ar waith i ddatblygu a gwireddu syniadau, gan ddangos meistrolaeth ar dechnegau amrywiol. |
| **4 Datrys Problemau**<br>Datrys problemau ac addasu i heriau na ragwelwyd wrth wireddu ymarfer creadigol. | Ymdrech annigonol i geisio dulliau amgen o ddatrys problemau.<br>Tystiolaeth annigonol o brofi ac effaith. | Dealltwriaeth ac archwilio perthnasol o syniadau a phrosesau amgen i adnabod a datrys problemau ymarferol a damcaniaethol o fewn ymarfer creadigol. |
| **5 Cynllunio, Cynnydd a Chynhyrchu**<br>Rheoli eu dysgu a'u cynnydd eu hunain trwy adfyfyrio pwrpasol, negodi, cynllunio, hunangyfeiriad, ymwneud â'r pwnc ac ymroddiad. | Diben neu waith adfyfyrio pwrpasol a chynllunio yn annigonol.<br>Diffyg hunangyfeiriad, ymwneud â'r pwnc a gwerthuso yn erbyn y nodau. | Cynllunio ac adfyfyrio perthnasol, ystyrlon a phwrpasol yn erbyn y nodau.<br>Tystiolaeth o hunangyfeiriad, ymwneud â'r pwnc ac ymroddiad. |
| **6 Gwerthuso ac Adfyfyrio**<br>Cymryd cyfrifoldeb gweithredol dros eu dysgu, eu datblygiad a'u penderfyniadau eu hunain gan ddefnyddio sgiliau gwerthuso ac adfyfyrio beirniadol. | Tystiolaeth annigonol o waith adfyfyrio a gwerthuso beirniadol parhaus a chrynodol wrth ddatblygu syniadau ac ymarfer ac wrth adfyfyrio ar brosesau penderfynu. | Gwaith adfyfyrio a gwerthuso beirniadol perthnasol a dilys, parhaus a chrynodol yn llywio'r dysgu, ac yn cyfathrebu prosesau penderfynu a datblygiad syniadau.<br>Gwaith gwerthuso realistig o'u hymarfer eu hunain wedi'i ddefnyddio'n effeithiol i adnabod a chyfathrebu cynnydd. |
| **7 Cyfathrebu a Chyflwyno Ymarfer Creadigol**<br>Cyfathrebu a chyflwyno ymarfer creadigol personol annibynnol neu ar y cyd. | Cyfathrebu a chyflwyno syniadau'n annigonol neu'n aneffeithiol. | Cyfathrebu perthnasol ac effeithiol yn ddigon eglur, trefnus a chyson wrth gyflwyno syniadau sy'n briodol i'r gynulleidfa benodol. |




**Lemi George,**
**Colchester Institute**

‘The Blue In You’ gan Fiona Tran,
Central Saint Martins



Uned 2
# Datblygu Ymarfer Arbenigol

## Trosolwg o'r uned

| | |
|---|---|
| **Lefel** | 3 |
| **ODA** | 310 awr |
| **CAU** | 460 awr |
| **Credydau** | 46 |
| **Asesu** | Wedi'i asesu'n fewnol a'i ddilysu'n fewnol |
| **Gradd** | Methu/Llwyddo |
| **Adnoddau** | Rhaid bod gan ganolfannau yr adnoddau ffisegol i weithredu'r rhaglen yn llwyddiannus, gan gynnwys: darpariaeth ddigonol a hyblyg neu fynediad agored ar gyfer stiwdios a gweithdai celf a dylunio arbenigol sydd â chyfarpar priodol diweddar, cyfleusterau TG, canolfan adnoddau dysgu a chymorth astudio. |

## Cyflwyniad i'r uned

Bydd yr uned hon yn rhoi'r cyfle i fyfyrwyr ystyried y wybodaeth, y sgiliau a'r ymarferion y maent wedi'u datblygu yn Uned 1 y cymhwyster, a diffinio eu huchelgeisiau creadigol drwy eu hannog i ymwneud ag amrywiaeth o weithgareddau mewn ffordd gyfannol, a fydd yn cefnogi ac yn lleoli eu hymdrechion creadigol o fewn eu dewis o ymarfer arbenigol, ac yn cynnig cyd-destun ar eu cyfer.

Mae'r uned hefyd yn rhagarweiniad i brosiect terfynol myfyrwyr a bydd yn rhoi cyfle iddynt ymgymryd â phroses fwy personol o ymholi a diagnosis er mwyn nodi uchelgeisiau o fewn maes penodol. O wneud hynny, byddant yn dechrau datblygu'r sgiliau proffesiynol y mae eu hangen er mwyn symud ymlaen o fewn yr ymarfer arbenigol a ddewisant.

## Deilliannau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon yn llwyddiannus, bydd y myfyriwr yn gallu:

| | |
|---|---|
| **DD1** | Ymchwilio i uchelgeisiau creadigol o fewn ymarfer arbenigol a'u rhoi mewn cyd-destun. |
| **DD2** | Rhoi methodoleg ymchwil ar waith a defnyddio sgiliau technegol ac arbrofi ymarferol i ddatblygu syniadau o fewn ymarfer arbenigol. |
| **DD3** | Defnyddio strategaethau dysgu annibynnol i ddatblygu syniadau a datrys problemau cymhleth o fewn cyd-destun ymarfer arbenigol i lywio a gwireddu datrysiadau creadigol. |
| **DD4** | Defnyddio sgiliau gwerthuso ac adfyfyrio beirniadol i gymryd cyfrifoldeb dros eu dysgu a'u datblygiad eu hunain. |
| **DD5** | Adolygu a defnyddio sgiliau cyflwyno i gyfathrebu eu hymarfer creadigol i gynulleidfa benodol. |

Uned 2

## Datblygu Ymarfer Arbenigol

**Cynnwys dangosol**
Mae'r uned hon wedi'i dylunio i adeiladu ar y wybodaeth, y sgiliau a'r ymarferion a ddatblygwyd yn Uned 1 y cymhwyster. Mae'n arwain myfyrwyr yn ddyfnach i'w harbenigedd personol drwy eu galluogi i ymchwilio, datblygu a mireinio eu syniadau creadigol. Bydd y cynnwys yn amrywiol ac yn cael ei ddiffinio i raddau helaeth gan syniadau artistig y myfyrwyr wrth iddynt brofi a datblygu eu cysyniadau mewn ffordd ymarferol a datblygu eu hymarfer proffesiynol. Mae'r uned yn annog myfyrwyr i feddwl yn greadigol a dangos arloesedd. Disgwylir y byddant yn datblygu dealltwriaeth ehangach o'r cyfleoedd dilyniant sydd ar gael, ac mae'r uned hefyd wedi'i dylunio i annog myfyrwyr i ddatblygu sgiliau cyflwyno a chyfathrebu mwy effeithiol sy'n briodol i'r ymarfer arbenigol o'u dewis ym maes celf, dylunio neu'r cyfryngau.

Nid yw cynnwys yr uned hon wedi'i gyfyngu i'r canlynol, ond bydd fel arfer yn cwmpasu:

> Adfyfyrio, dadansoddi a gwerthuso er mwyn adnabod cyflawniad a chyfleoedd pellach ar gyfer datblygiad personol
> Gwaith dadansoddi a gwerthuso beirniadol i asesu effeithiolrwydd amrywiaeth o bersbectifau ymchwil a chyd-destunol i archwilio syniadau a datblygu datrysiadau creadigol o fewn ymarfer creadigol arbenigol
> Defnyddio sgiliau perthnasol a'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth angenrheidiol o amrywiaeth o brosesau creadigol i ddatblygu datrysiadau ar gyfer problemau cymhleth o fewn ymarfer arbenigol penodol.

**Dull asesu a gofynion tystiolaeth**

Caiff yr uned hon ei hasesu'n fewnol a'i dilysu'n fewnol yn erbyn deilliannau'r uned drwy gyfrwng gwaith aseiniad myfyrwyr ac mae'n destun proses allanol UAL Awarding Body ar gyfer sicrhau ansawdd.

Gall myfyrwyr ddangos bod y deilliannau dysgu wedi'u bodloni mewn amrywiaeth o ffyrdd. Fodd bynnag, mae'n debygol mai portffolio o dystiolaeth fydd y brif ffurf ar dystiolaeth a gynhyrchir.

Mae'r uned hon yn gofyn i fyfyrwyr lunio gwaith ysgrifenedig beirniadol, wedi'i osod gan y ganolfan, a fydd oddeutu 750 o eiriau, ac a allai ymdrin ag un neu ragor o'r canlynol:

> Adolygiad o gynnydd a chyflawniad yn Uned 1 y cwrs, gan drafod datblygiad eu chwilfrydedd creadigol eu hunain, eu gallu i ymdrin â chymhlethdod a'u hyder artistig yn ogystal ag artistiaid/dylunwyr/arddangosfeydd penodol sydd wedi cael effaith ar eu cyfeiriad creadigol eu hunain. (Gallai hyn gwmpasu agweddau ar derminoleg cynnig y prosiect mawr terfynol a gellid ei ysgrifennu ar gychwyn Uned 2).

> Adolygiad beirniadol o'u hymarfer creadigol, gan gyfeirio'n benodol at ddatblygiad eu hymarfer arbenigol eu hunain, eu dylanwadau a'u diddordebau ymchwil personol, artistiaid a/neu ddylunwyr, arddangosfeydd a syniadau creadigol sydd wedi dylanwadu ar eu penderfyniadau, eu datblygiad creadigol a'u cynlluniau ar gyfer dilyniant. (Gallai hyn gwmpasu agweddau ar derminoleg cynnig y prosiect mawr terfynol a gellid ei ysgrifennu tua diwedd Uned 2.)

> Traethawd academaidd sy'n gysylltiedig â'u hymarfer arbenigol.

> Unrhyw waith ysgrifennu beirniadol arall y mae'r ganolfan yn ei ystyried yn briodol.

Rhaid iddo hefyd gynnwys:

> Llyfryddiaeth yn arddull cyfeirio Harvard, sy'n rhoi manylion am yr holl ffynonellau ymchwil.

Yn ogystal â'r gofyniad uchod, byddai UAL Awarding Body yn disgwyl i'r mathau canlynol o dystiolaeth gael eu cynhyrchu:

Nid yw'r dystiolaeth wedi'i rhagnodi ond gallai, er enghraifft, gynnwys:

> Cofnodion o waith dadansoddi a gwerthuso beirniadol er mwyn mynegi prosesau gwaith i gefnogi prosesau penderfynu a chynnydd

> Cofnodion o gyngor ac arweiniad

> Portffolio gweledol yn dangos nodweddion y ddisgyblaeth arbenigol, er mwyn cyfathrebu a chyflwyno syniadau ac arferion gwaith yn effeithiol i amrywiaeth o gynulleidfaoedd priodol, ac er mwyn archwilio cyfleoedd dilyniant

> Ysgrifennu beirniadol.

Gellir cofnodi'r dystiolaeth mewn llyfrau braslunio llaw a digidol, llyfrau nodiadau, taflenni datblygiad gweledol, deunydd digidol arall, adeileddau, samplau a dyddiaduron a/neu flogiau adfyfyriol personol, fel y bo'n briodol.

Nid yw'r rhestr yn gynhwysfawr. Dylid annog myfyrwyr i ddatblygu'r dystiolaeth fwyaf priodol i ddangos eu bod wedi cyflawni deilliannau dysgu'r uned.

**Cyflwyno'r uned**
Caiff yr uned hon ei chyflwyno drwy gyfrwng amrywiaeth o weithgareddau ac aseiniadau wedi'u strwythuro mewn ffordd briodol er mwyn rhoi gwell dealltwriaeth i fyfyrwyr o'u maes arbenigol a sut mae wedi'i leoli mewn cyd-destun ehangach. Gallai amrywiaeth o weithgareddau gynnwys: darlithoedd, trafodaethau, gweithdai, arddangosiadau, ymweliadau neu weithgareddau cefnogi eraill. Bydd beirniadaethau grŵp gyda chydfyfyrwyr a thiwtoriaid yn hybu dysgu adfyfyriol, ynghyd â thrafodaethau grŵp lle caiff sgiliau meddwl beirniadol eu mireinio a'u datblygu ymhellach. Dylid annog myfyrwyr i fod yn annibynnol yn eu hymagwedd at eu dysgu, a bydd disgwyl iddynt gynnal ymchwil annibynnol er mwyn cael dealltwriaeth soffistigedig o'u hymarfer creadigol personol a'u datblygiad proffesiynol. Bydd cyfleusterau ac adnoddau dysgu ar gael i fyfyrwyr eu defnyddio y tu allan i'r sesiynau a addysgir.

Dylai canolfannau ddilyn dull cyflwyno sy'n cefnogi datblygiadau eu myfyrwyr penodol. Dylid ystyried nodau ac uchelgeisiau pob myfyriwr, gan gynnwys y rheiny y nodwyd bod ganddynt anghenion addysgol arbennig, a dylid rhoi trefniadau cefnogi priodol yn eu lle.

I gael rhagor o wybodaeth, gweler y Canllawiau Cyflwyno ar gyfer y cymhwyster hwn.

**Rhestr ddarllen ac adnoddau**
Y ganolfan fydd yn pennu'r rhestrau darllen a'r holl adnoddau cysylltiedig eraill ar gyfer yr uned hon.

**Isobel Attrill, City College Brighton and Hove**



**Deilliannau dysgu a grid graddio**
Rhoddir gradd Llwyddo neu Fethu ar gyfer yr uned hon, a rhaid llwyddo ynddi cyn symud ymlaen i'r uned derfynol, Uned 3.


Rhaid asesu'r dystiolaeth a gyflwyna myfyrwyr yn erbyn y deilliannau dysgu a'r disgrifyddion ar gyfer Llwyddo. Bydd myfyrwyr sy'n cyflwyno tystiolaeth sy'n methu â chyrraedd y safon ar gyfer Llwyddo yn cael eu cyfeirio. Mae gan y myfyriwr un cyfle i glirio cyfeiriad drwy gyflwyno tystiolaeth ychwanegol o fewn amserlen y mae'r ganolfan yn cytuno arni ac a gadarnheir gan UAL Awarding Body.

Dylid asesu'r dystiolaeth mewn ffordd gyfannol yn erbyn y deilliannau dysgu a'r disgrifyddion. Fodd bynnag, mae'r tabl isod yn dangos sut gellir mapio'r disgrifyddion i'r deilliannau dysgu.

| | Cyd-destun | Ymchwil | Datblygiad Ymarfer Creadigol | Datrys Problemau | Cynllunio, Cynnydd a Chynhyrchu | Gwerthuso ac Adfyfyrio | Cyfathrebu a Chyflwyno Ymarfer Creadigol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **DD1** | Ydy | Ydy | Ydy | Nac ydy | Ydy | Ydy | Ydy |
| **DD2** | Nac ydy | Ydy | Ydy | Ydy | Nac ydy | Nac ydy | Ydy |
| **DD3** | Ydy | Nac ydy | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy |
| **DD4** | Ydy | Nac ydy | Ydy | Nac ydy | Ydy | Ydy | Ydy |
| **DD5** | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy | Nac ydy | Ydy | Ydy |

## Grid Graddio

| Disgrifyddion | Methu | Llwyddo (L3) |
|---|---|---|
| **1 Cyd-destun**<br>Deall gwybodaeth pwnc a'r egwyddorion sylfaenol a'u rhoi ar waith | Dealltwriaeth annigonol o'r pwnc a'r egwyddorion sylfaenol.<br>Diffyg eglurder yn y cyd-destun o ran nodau a diben. | Dealltwriaeth berthnasol o gyd-destun y pwnc wedi'i defnyddio'n briodol i gynnig barn, mynegi nodau ac egluro diben. |
| **2 Ymchwil**<br>Adnabod ac ymchwilio i amrywiaeth o ffynonellau gweledol, academaidd, moesegol a diwylliannol cynradd ac eilaidd. | Tystiolaeth annigonol wedi'i chyflwyno o sut defnyddir ymchwil i lywio a datblygu syniadau. | Gwybodaeth berthnasol wedi'i chasglu, ei dogfennu a'i defnyddio i ddatblygu syniadau. |
| **3 Datblygu Ymarfer Creadigol**<br>Sgiliau i alluogi gwireddu syniadau, sy'n briodol i ymarfer creadigol. | Datblygiad sgiliau a phrosesau heb eu harchwilio na'u dangos.<br>Barnu a gweithredu technegau yn wael ac yn methu â chyfathrebu'r ymarfer creadigol. | Prosesau, sgiliau a gwybodaeth berthnasol wedi'u rhoi ar waith i ddatblygu a gwireddu syniadau, gan ddangos meistrolaeth ar dechnegau amrywiol. |
| **4 Datrys Problemau**<br>Datrys problemau ac addasu i heriau na ragwelwyd wrth wireddu ymarfer creadigol. | Ymdrech annigonol i geisio dulliau amgen o ddatrys problemau.<br>Tystiolaeth annigonol o brofi ac effaith. | Dealltwriaeth ac archwilio perthnasol o syniadau a phrosesau amgen i adnabod a datrys problemau ymarferol a damcaniaethol o fewn ymarfer creadigol. |
| **5 Cynllunio, Cynnydd a Chynhyrchu**<br>Rheoli eu dysgu a'u cynnydd eu hunain trwy adfyfyrio pwrpasol, negodi, cynllunio, hunangyfeiriad, ymwneud â'r pwnc ac ymroddiad. | Diben neu waith adfyfyrio pwrpasol a chynllunio yn annigonol.<br>Diffyg hunangyfeiriad, ymwneud â'r pwnc a gwerthuso yn erbyn y nodau. | Cynllunio ac adfyfyrio perthnasol, ystyrlon a phwrpasol yn erbyn y nodau.<br>Tystiolaeth o hunangyfeiriad, ymwneud â'r pwnc ac ymroddiad. |
| **6 Gwerthuso ac Adfyfyrio**<br>Cymryd cyfrifoldeb gweithredol dros eu dysgu, eu datblygiad a'u penderfyniadau eu hunain gan ddefnyddio sgiliau gwerthuso ac adfyfyrio beirniadol. | Tystiolaeth annigonol o waith adfyfyrio a gwerthuso beirniadol parhaus a chrynodol wrth ddatblygu syniadau ac ymarfer ac wrth adfyfyrio ar brosesau penderfynu. | Gwaith adfyfyrio a gwerthuso beirniadol perthnasol a dilys, parhaus a chrynodol yn llywio'r dysgu, ac yn cyfathrebu prosesau penderfynu a datblygiad syniadau.<br>Gwaith gwerthuso realistig o'u hymarfer eu hunain wedi'i ddefnyddio'n effeithiol i adnabod a chyfathrebu cynnydd. |
| **7 Cyfathrebu a Chyflwyno Ymarfer Creadigol**<br>Cyfathrebu a chyflwyno ymarfer creadigol personol annibynnol neu ar y cyd. | Cyfathrebu a chyflwyno syniadau'n annigonol neu'n aneffeithiol. | Cyfathrebu perthnasol ac effeithiol yn ddigon eglur, trefnus a chyson wrth gyflwyno syniadau sy'n briodol i'r gynulleidfa benodol. |



**Andrew Rees, University for the Creative Arts**

'Impaired' gan Jennifer Chu, Central Saint Martins



Uned 3
# Atgyfnerthu Ymarfer


## Trosolwg o'r uned

| | |
|---|---|
| **Lefel** | 4 |
| **ODA** | 180 awr |
| **CAU** | 450 awr |
| **Credydau** | 45 |
| **Asesu** | Wedi'i asesu'n fewnol a'i ddilysu'n fewnol |
| **Gradd** | Methu/Llwyddo/Teilyngdod/ Rhagoriaeth |
| **Adnoddau** | Rhaid bod gan ganolfannau yr adnoddau ffisegol i weithredu'r rhaglen yn llwyddiannus, gan gynnwys: darpariaeth ddigonol a hyblyg neu fynediad agored ar gyfer stiwdios a gweithdai celf a dylunio arbenigol sydd â chyfarpar priodol diweddar, cyfleusterau TG, canolfan adnoddau dysgu a chymorth astudio. |

## Cyflwyniad i'r uned

Nod yr uned hon yw rhoi cyfle i fyfyrwyr gymryd yr awenau yn eu dysgu eu hunain a dangos cyflawniad drwy gychwyn, ymchwilio, cwblhau a gwerthuso cynnig prosiect yn annibynnol o fewn cyd-destun proffesiynol o'u dewis, a gwireddu'r prosiect hwnnw.

Y myfyriwr fydd yn cael dewis y pwnc arfaethedig a diffinio'r ymchwil ddilynol a'r holl weithgareddau perthnasol. Dim ond drwy gyfrwng sesiynau tiwtora a seminarau arferol y dylid rhoi cefnogaeth dysgu. Dylid ystyried nodau ac uchelgeisiau pob myfyriwr, gan gynnwys y rheiny a chanddynt anghenion arbennig, a dylid rhoi trefniadau cefnogi priodol yn eu lle.



Florence Blunt,
Diploma Sylfaen Lefel 3
mewn Celf a Dylunio

Uned 3

# Atgyfnerthu Ymarfer

**Cynnwys dangosol, strategaethau addysgu a gweithgareddau dysgu**
Bydd cynnwys yr uned yn amrywio yn ôl gofynion penodol dewis brosiect y myfyriwr, un unigol neu ar y cyd, sy'n deillio o gynigion a ddatblygwyd mewn ymgynghoriad â thiwtoriaid.

Bydd monitro cynnydd y prosiect yn feirniadol ac yn barhaus, gan gynnwys hunanasesu ac asesu gan gydfyfyrwyr, beirniadaethau grŵp ac adolygiadau 1:1, yn parhau'n ganolog i fod myfyrwyr yn llwyddo i fodloni gofynion yr uned hon ac yn atgyfnerthu eu hymarfer creadigol eu hunain. Os bydd y prosiect yn un ar y cyd, rhaid cyflwyno tystiolaeth o rolau unigol fel rhan o'r profiad ar y cyd.

Gallai'r gweithgareddau nodweddiadol y bydd myfyrwyr yn ymwneud â nhw gynnwys: gweithdai, gweithgareddau mewn lleoliad megis teithiau maes ac ymweliadau ag orielau, gwaith cynllunio, meddwl ac ysgrifennu beirniadol, archwilio ac arbrofi ymarferol, cyflwyniadau, ac ati.

**Deilliannau dysgu**
Ar ôl cwblhau'r uned hon yn llwyddiannus, bydd y myfyriwr yn gallu:

| | |
|---|---|
| **DD1** | Cychwyn a datblygu cynnig prosiect creadigol gan ddefnyddio amrywiaeth o bersbectifau ac ymagweddau beirniadol a chyd-destunol. |
| **DD2** | Defnyddio gwaith ymchwil, dadansoddi a gwerthuso i ddatblygu syniadau a datrysiadau ar gyfer prosiect creadigol. |
| **DD3** | Defnyddio dulliau priodol a sgiliau arbenigol i wireddu prosiect creadigol. |
| **DD4** | Integreiddio dealltwriaeth ymarferol, ddamcaniaethol a thechnegol i ddatrys problemau cymhleth er mwyn gwireddu prosiect creadigol. |
| **DD5** | Cynllunio, trefnu a chadw cofnodion o gynnydd wrth gynhyrchu prosiect creadigol. |
| **DD6** | Cadw cofnodion o waith dadansoddi, adfyfyrio a gwerthuso beirniadol i lywio eu dysgu eu hunain. |
| **DD7** | Defnyddio technegau a dulliau priodol i gyfathrebu a chyflwyno prosiect creadigol i gynulleidfa benodol. |

**Gofynion asesu a thystiolaeth**

Caiff yr uned hon ei hasesu'n fewnol, ei dilysu'n fewnol a'i safoni'n allanol. Caiff portffolio tystiolaeth y myfyriwr ei asesu yn erbyn deilliannau'r uned, gan ddefnyddio'r grid graddio.

Mae'r uned hon yn gofyn i fyfyrwyr lunio cynnig prosiect ysgrifenedig o tua 500 gair a ddylai ymdrin â'r canlynol:

> Adolygiad o gynnydd a chyflawniad yn Unedau 1 a 2 y cwrs
> Cysyniad y prosiect
> Sut byddan nhw'n ymgymryd â gwerthuso beirniadol.

Bydd angen i fyfyrwyr gydbwyso uchelgais, amser ac adnoddau wrth wireddu'r prosiect, a rhaid cynnwys cynllun gweithredu gydag amserlen.

Yn ogystal, mae angen llyfryddiaeth yn arddull cyfeirio Harvard.

Mae rhagor o wybodaeth yn Adran 6 – Arweiniad i fyfyrwyr.

Yn ogystal â'r gofynion uchod, rhaid i fyfyrwyr gwblhau gwerthusiad terfynol rhwng 750 a 1750 o eiriau. Os caiff ei fapio i'r saith Deilliant Dysgu, ni ddylai hyn fod yn fwy na 250 gair i bob adran.

Cyfeiriwch at y ddogfen arweiniad am ragor o wybodaeth.

Gall myfyrwyr hefyd ddangos eu bod wedi bodloni'r deilliannau dysgu drwy gyflwyno'r mathau canlynol o dystiolaeth:

> Gwaith cynllunio, ymchwil a datblygu syniadau wedi'i gyflwyno mewn: llyfrau braslunio, llyfrau gwaith, fformat digidol, llyfrau nodiadau, dyddiaduron adfyfyriol personol
> Gwaith dadansoddi, adfyfyrio a gwerthuso beirniadol wedi'i gyflwyno mewn: llyfrau braslunio, llyfrau gwaith, fformat digidol, llyfrau nodiadau, neu ddyddiaduron adfyfyriol personol
> Gwaith datblygu a gwireddu'r prosiect wedi'i gyflwyno mewn: llyfrau braslunio, llyfrau gwaith, fformat digidol, gwaith datblygu gweledol, delweddau, dyluniadau, cyfryngau, arteffactau, llyfrau nodiadau neu ddyddiaduron adfyfyriol personol
> Strategaethau gweithredu yn ystyried cyflwyno a chyfathrebu prosiect hunangyfeiriedig personol i gynulleidfa benodol, wedi'u cyflwyno mewn: llyfrau braslunio, llyfrau gwaith, fformat digidol, llyfrau nodiadau, dyddiaduron adfyfyriol personol ac unrhyw fformat priodol arall.

Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr a dylid annog myfyrwyr i ddatblygu'r dystiolaeth fwyaf priodol i ddangos eu bod wedi cyflawni deilliannau dysgu'r uned.

## Cyflwyno'r uned

Prosiect dan arweiniad y myfyriwr ei hun yw'r uned hon, a bydd myfyrwyr yn cael eu cefnogi drwy gydol y broses drwy gyfrwng tiwtorialau rheolaidd, adolygiadau gan gydfyfyrwyr a chyfarfodydd gyda'u tiwtor. Caiff darlithwyr gynnig cyngor a chymorth mewn perthynas â strategaethau'r prosiect, rheoli amser a materion technegol.

I gael rhagor o wybodaeth, gweler y Canllawiau Cyflwyno ar gyfer y cymhwyster hwn.

## Rhestr ddarllen ac adnoddau

Bydd y rhestrau darllen a'r holl adnoddau cysylltiedig eraill ar gyfer y prosiect hwn yn cael eu pennu gan y myfyrwyr a'u diffinio ganddynt yn eu cynigion prosiect.

**James Owen yn gweithio yn y Stiwdio © Alys Tomlinson**





Experimenting with textures gan Sunaina Khandelwal © Ben Turner

**Deilliannau dysgu a grid graddio**

Dyfernir gradd Methu, Llwyddo, Teilyngdod neu Ragoriaeth ar gyfer yr uned hon a dyma fydd yn pennu'r radd gyffredinol ar gyfer y cymhwyster. Caiff y radd gyffredinol ar gyfer y cymhwyster ei phennu gan gyflawniad y myfyriwr yn yr uned hon.

Rhaid asesu a graddio'r dystiolaeth a gyflwyna myfyrwyr yn erbyn y deilliannau dysgu a'r disgrifyddion. Bydd myfyrwyr sy'n cyflwyno tystiolaeth sy'n methu â chyrraedd y safon ar gyfer Llwyddo yn cael eu cyfeirio. Mae gan y myfyriwr un cyfle i glirio cyfeiriad drwy gyflwyno tystiolaeth ychwanegol o fewn amserlen y mae'r ganolfan yn cytuno arni ac a gadarnheir gan UAL Awarding Body.

Dylid asesu'r dystiolaeth mewn ffordd gyfannol yn erbyn y deilliannau dysgu a'r disgrifyddion. Fodd bynnag, mae'r tabl isod yn dangos sut gellir mapio'r disgrifyddion i'r deilliannau dysgu.

| | **Cyd-destun** | **Ymchwil** | **Datblygiad Ymarfer Creadigol** | **Datrys Problemau** | **Cynllunio, Cynnydd a Chynhyrchu** | **Gwerthuso ac Adfyfyrio** | **Cyfathrebu a Chyflwyno Ymarfer Creadigol** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **DD1** | Ydy | Ydy | Nac ydy | Nac ydy | Ydy | Nac ydy | Ydy |
| **DD2** | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy |
| **DD3** | Nac ydy | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy |
| **DD4** | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy | Nac ydy | Ydy |
| **DD5** | Nac ydy | Nac ydy | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy |
| **DD6** | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy |
| **DD7** | Ydy | Nac ydy | Nac ydy | Nac ydy | Nac ydy | Ydy | Ydy |

## Grid Graddio

| Disgrifyddion | Methu | Llwyddo | Teilyngdod | Rhagoriaeth |
|---|---|---|---|---|
| **1 Cyd-destun**<br>Deall gwybodaeth pwnc a'r egwyddorion sylfaenol a'u rhoi ar waith, a hynny o hyd a lled priodol i gefnogi datblygiad a gwireddiad y prosiect. | Dealltwriaeth annigonol o'r pwnc a'r egwyddorion sylfaenol.<br>Diffyg eglurder yn y cyd-destun o ran nodau a diben. | Dealltwriaeth ddatblygedig o agweddau allweddol ar gyd-destun y pwnc wedi'i defnyddio'n briodol i gynnig barn wybodus, mynegi nodau ac egluro diben. | Dealltwriaeth a gwybodaeth hyderus a thra datblygedig o gyd-destun y pwnc a thrafodaethau perthnasol wedi'u defnyddio i gyfathrebu barn gadarn, mynegi nodau ac egluro diben. | Dealltwriaeth a gwybodaeth ragorol o gyd-destun y pwnc wedi'u defnyddio i gyfathrebu cysyniadau cymhleth, herio uchelgais a mynegi diben clir er mwyn ymestyn ymholi deallusol. |
| **2 Ymchwil**<br>Adnabod ac ymchwilio i amrywiaeth o ffynonellau gweledol, academaidd, moesegol a diwylliannol cynradd ac eilaidd. | Tystiolaeth annigonol wedi'i chyflwyno o sut defnyddir ymchwil i lywio a datblygu syniadau. | Dehongliad datblygedig a detholiad o ffynonellau amrywiol wedi'u defnyddio i gynnal ymchwiliad, gan atgyfnerthu syniadau a datrysiadau ar gyfer gweithgareddau creadigol. | Ymchwil ac ymchwiliad hyderus a thra datblygedig o ffynonellau perthnasol amrywiol wedi'u defnyddio'n effeithiol wrth ddehongli a chyfosod gwybodaeth i gefnogi a datblygu syniadau a datrysiadau ar gyfer gweithgareddau creadigol. | Lefel ragorol o ymchwil ac ymchwiliad parhaus o ffynonellau perthnasol amrywiol yn arwain at ddehongli a chyfosod gwybodaeth mewn ffordd graff i gefnogi a datblygu syniadau a'u hymarfer creadigol eu hunain. |
| **3 Datblygu Ymarfer Creadigol**<br>Sgiliau i alluogi gwireddu syniadau, sy'n briodol ar gyfer ymarfer creadigol. | Datblygiad sgiliau a phrosesau heb eu harchwilio na'u dangos.<br>Barnu a gweithredu technegau yn wael ac yn methu â chyfathrebu'r ymarfer creadigol. | Dealltwriaeth a defnydd datblygedig o brosesau, sgiliau a gwybodaeth berthnasol wedi'u defnyddio'n effeithiol i atgyfnerthu a gwireddu syniadau, gan ddangos meistrolaeth dros dechnegau amrywiol sy'n briodol i ymarfer creadigol. | Dealltwriaeth a defnydd hyderus a thra datblygedig o brosesau, sgiliau a gwybodaeth berthnasol wedi'u defnyddio'n effeithiol i ymestyn ymholiad a datblygu a gwireddu datrysiadau creadigol; dangos meistrolaeth gyson dros dechnegau amrywiol sy'n briodol i ymarfer creadigol. | Dealltwriaeth a defnydd rhagorol o brosesau, sgiliau a gwybodaeth berthnasol wedi'u defnyddio'n effeithiol i ddangos ymwybyddiaeth esthetig ac ymagwedd hyblyg a llawn dychymyg at ymholi estynedig, gan arwain at ddatrysiadau uchelgeisiol a dyfeisgar sy'n briodol i ymarfer creadigol. |
| **4 Datrys Problemau**<br>Datrys problemau ac addasu i heriau na ragwelwyd wrth wireddu ymarfer creadigol. | Ymdrech annigonol i geisio dulliau amgen o ddatrys problemau.<br>Tystiolaeth annigonol o brofi ac effaith. | Dealltwriaeth ac archwilio datblygedig o syniadau amgen gan ddefnyddio ymagweddau gofalus at brofi ac effaith i ddatrys problemau ymarferol a damcaniaethol o fewn ymarfer creadigol. | Yn dangos menter hyderus a thra datblygedig wrth ystyried ymagweddau at brofi ac effaith i ddatrys problemau'n effeithiol.<br>Yn ymateb yn gadarnhaol i heriau ymarferol a damcaniaethol na ragwelwyd i gyflawni nodau penodol. | Yn dangos menter eithriadol wrth gydbwyso cymhlethdodau problemau damcaniaethol ac ymarferol, gan roi datrysiadau creadigol ar waith yn annibynnol.<br>Yn addasu'n gadarnhaol i effaith heriau ymarferol a damcaniaethol na ragwelwyd, gan ddefnyddio dyfeisgarwch ac uchelgais i gyflawni nodau penodol. |

## **Grid graddio** – parhad

| Disgrifyddion | Methu | Llwyddo | Teilyngdod | Rhagoriaeth |
|---|---|---|---|---|
| 5 **Cynllunio, Cynnydd a Chynhyrchu**<br>Rheoli eu dysgu a'u cynnydd eu hunain trwy adfyfyrio pwrpasol, negodi, cynllunio, hunangyfeiriad, ymwneud â'r pwnc ac ymroddiad. | Diben neu waith adfyfyrio pwrpasol a chynllunio yn annigonol.<br>Diffyg hunangyfeiriad, ymwneud â'r pwnc a gwerthuso yn erbyn y nodau. | Dealltwriaeth ddatblygedig o waith cynllunio ac adfyfyrio pwrpasol yn erbyn y nodau, gan roi hynny ar waith.<br>Tystiolaeth glir o hunangyfeiriad, ymwneud â'r pwnc a rheoli eu dysgu eu hunain, gan ddangos ymroddiad i'r holl weithgareddau yn erbyn yr amserlen. | Dealltwriaeth hyderus a thra datblygedig o waith cynllunio ac adfyfyrio pwrpasol gan ddangos ymateb cydlynol a rhesymedig i'w dysgu a'u cynnydd eu hunain.<br>Tystiolaeth glir o hunangyfeiriad a negodi i ddangos lefelau uchel o ymwneud â'r pwnc ac ymroddiad i gyflawni nodau'n brydlon. | Yn dangos cyfrifoldeb rhagorol dros eu dysgu a'u datblygiad eu hunain yn gyson trwy broses gylchol a thrwy waith dadansoddi a chynllunio pwrpasol wedi'i fynegi'n glir.<br>Hunangyfeiriad, negodi, ymwneud â'r pwnc ac ymroddiad wedi'u cefnogi gan dystiolaeth helaeth o effeithiau; a gwireddu nodau o fewn amserlen benodol. |
| 6 **Gwerthuso ac Adfyfyrio**<br>Cymryd cyfrifoldeb gweithredol dros eu dysgu, eu datblygiad a'u penderfyniadau eu hunain gan ddefnyddio sgiliau gwerthuso ac adfyfyrio beirniadol. | Tystiolaeth annigonol o waith adfyfyrio a gwerthuso beirniadol parhaus a chrynodol wrth ddatblygu syniadau ac ymarfer ac wrth adfyfyrio ar brosesau penderfynu. | Gwaith adfyfyrio a gwerthuso beirniadol parhaus a chrynodol datblygedig a gofalus wedi'i ddefnyddio'n annibynnol i lywio'r dysgu, cyfathrebu penderfyniadau ac atgyfnerthu syniadau.<br>Defnyddir lefel realistig a datblygedig o ddadansoddi i werthuso'u hymarfer eu hunain a chyfleu cynnydd. | Gwaith adfyfyrio, dadansoddi, dehongli a gwerthuso beirniadol parhaus a chrynodol hyderus a thra datblygedig wedi'i ddefnyddio i ddatblygu cyfosodiad annibynnol o wybodaeth a phrosesau penderfynu rhesymedig er mwyn atgyfnerthu syniadau. | Gwaith adfyfyrio a gwerthuso beirniadol parhaus a chrynodol rhagorol o ddatblygedig. Gwaith dadansoddi a dehongli medrus a chraff, gan ddangos eglurder a soffistigeiddrwydd o ran syniadau, ac aeddfedrwydd o ran gwneud penderfyniadau er mwyn datblygu syniadau. |
| 7 **Cyfathrebu a Chyflwyno Ymarfer Creadigol**<br>Cyfathrebu a chyflwyno ymarfer creadigol personol annibynnol neu ar y cyd. | Cyfathrebu a chyflwyno syniadau'n annigonol neu'n aneffeithiol. | Ystyriaeth ddatblygedig wrth ddewis, trefnu, cyfathrebu a chyflwyno syniadau, gan ddangos dealltwriaeth o gonfensiynau a safonau sy'n briodol i gynulleidfa benodol. | Dewis a threfnu syniadau'n hyderus a thra datblygedig, gan ddangos defnydd uchelgeisiol o'r adnoddau sydd ar gael i gyfathrebu'n effeithiol a chyflwyno ymarfer creadigol i gynulleidfa benodol. | Dealltwriaeth ragorol o natur a chryfderau cyfryngau cyfathrebu priodol. Gwybodaeth wedi'i dewis, ei threfnu a'i chyflwyno gan ddangos ymwybyddiaeth dra datblygedig o'r cyd-destun a'r gynulleidfa.<br>Y neges a'r cyfrwng yn unedig; y cyfathrebu'n darbwyllo ac yn cymell, gan roi ystyriaeth lawn i'w hymarfer creadigol eu hunain. |

# Adran 6
# **Arweiniad i fyfyrwyr**

Mae'r wybodaeth ar y tudalennau canlynol yn cynnig arweiniad i fyfyrwyr sy'n astudio tuag at Ddiploma Sylfaen UAL mewn Celf a Dylunio (Uned 3) ar sut i ysgrifennu'r cynnig prosiect.

Wrth lunio'r cynnig prosiect, ac wrth baratoi i wireddu'r prosiect, dylech ymgyfarwyddo ag Uned 3. Yn benodol, dylech ddeall y deilliannau dysgu a'r disgrifyddion a ddefnyddir i bennu'r safonau cyflawniad.

Mae Uned 3 yn gofyn i chi lunio cynnig prosiect tua 500 o eiriau, hyd at 10% yn fwy neu lai, heb gynnwys cynllun gweithredu'r prosiect, yr amserlen na'r llyfryddiaeth. Ni ddylai cynigion prosiect fod mor gryno nad ydynt yn ymdrin â'r gofynion a restrir isod, ac ni ddylent ychwaith fod yn arbennig o hir a di-ffocws.

Dylai eich cynnig prosiect fod yn ddigon heriol i sicrhau y cewch y cyfle gorau posibl i fodloni'r meini prawf graddio.

Dylai eich cynnig prosiect gynnwys:

> Enw a rhif y ganolfan
> Enw a rhif yr ymgeisydd
> Teitl y cynnig prosiect a'r dyddiad
> Disgyblaeth arbenigol, e.e. celf, ffasiwn, darlunio, ac ati.

**Adran 1: Adolygu**
(tua 150 gair)
Yn yr adran hon dylech ystyried, adolygu a chrynhoi eich cynnydd a'r hyn rydych wedi'i gyflawni yn ystod y cwrs. Mae'r adran yn gyfle i chi fynegi'r wybodaeth, y sgiliau a'r ddealltwriaeth a ddysgoch ynghyd â'r hyn y mae'n ei olygu i chi nawr, o gymharu â chychwyn y cwrs. Mae hefyd yn gyfle i chi egluro eich rhesymau dros ddewis disgyblaeth benodol ac amlinellu eich uchelgeisiau ar gyfer y tymor hir. Dylech ystyried sut mae eich dewis o ddisgyblaeth benodol wedi llywio eich cynnig prosiect.

**Adran 2: Cysyniad y prosiect**
(tua 250 gair)
Yn yr adran hon, dylech esbonio cysyniad a nodau eich prosiect yn glir, y syniadau a fydd yn cefnogi a meithrin y gwaith o'i ddatblygu, yr ymchwil y byddwch yn ymgymryd â hi, beth rydych chi'n bwriadu ei greu, y mathau o adnoddau y bydd eu hangen arnoch ynghyd â faint, a rhoi syniad o'r ffurf y byddwch yn ei defnyddio i gyflwyno gwireddiad y prosiect. Dylech ddeall y byddwch, drwy gydol y gwaith o wireddu'r prosiect, ac mewn ymateb i ddatblygiad eich syniadau a/neu argaeledd cyfleusterau a deunyddiau, efallai yn gwneud penderfyniadau a fydd yn arwain at newidiadau i gysyniad a nodau'r prosiect. Mae'n bwysig dogfennu unrhyw broses o newid, a hynny yn y gwaith ei hun ac mewn cofnodion ategol, e.e. dyddiadur adfyfyriol personol.

**Adran 3: Gwerthusiad**
(tua 100 gair)
Yn yr adran hon, dylech egluro sut byddwch yn adfyfyrio ynghylch eich gwaith ac yn ei werthuso drwy gydol datblygiad y prosiect ac ar ddiwedd y prosiect. Dylai'r adolygiad beirniadol gyfeirio at nodau'r prosiect a bod yn adfyfyriol a dadansoddol o ran yr hyn a ddysgoch ac a gyflawnoch, yn hytrach na rhoi disgrifiad o'r hyn a wnaed.



**Sioe Sylfaen Celf a Dylunio**
**Central Saint Martins**

## Gofynion ychwanegol

Heb ei gynnwys o fewn terfyn 500 gair y cynnig:

**Cynllun gweithredu'r prosiect ac amserlen**
Yn yr adran hon, dylech amlinellu'r gyfres o gamau gweithredu y mae eu hangen i symud y prosiect yn ei flaen dros gyfnod o wythnosau er mwyn gallu ei gwblhau yn llwyddiannus o fewn yr amserlen y cytunwyd arni. Mae'n bwysig i chi ystyried uchelgais, cwmpas ac amser yn ofalus er mwyn sicrhau bod eich prosiect yn realistig. Noder: dylid defnyddio hwn fel dogfen weithredol drwy gydol datblygiad eich prosiect.

**Llyfryddiaeth (dull Harvard)**
Yn yr adran hon, dylech gofnodi'r ffynonellau ymchwil a ddefnyddioch. Dylech gofnodi eich ffynonellau ymchwil cychwynnol ar gyfer cynnig y prosiect ac yna diweddaru'r llyfryddiaeth yn rheolaidd wrth i'r prosiect fynd rhagddo.

**Gwerthusiad terfynol**
Ar ddiwedd y prosiect, rhaid i chi lunio gwerthusiad terfynol rhwng 750 a 1750 gair. Os caiff ei fapio i'r saith deilliant dysgu, ni ddylai hyn fod yn fwy na 250 gair i bob adran. Cyfeiriwch at y ddogfen arweiniad am ragor o wybodaeth.

# Adran 7
# **Geirfa**

Darparwyd yr eirfa hon i'ch helpu i ddeall y termau a ddefnyddir yn y fanyleb, y deilliannau dysgu a'r gridiau graddio.

**Adfyfyrio**
Yn ystyried eu gweithredoedd, eu profiadau neu eu dysgu eu hunain a goblygiadau hynny o ran eu hymarfer a/neu eu datblygiad proffesiynol. Mae hyn yn caniatáu i fyfyrwyr ystyried eu sgiliau a'u gwybodaeth eu hunain a defnyddio hynny i wneud cynnydd neu welliannau.

**Amgen**
Dewis o ddau neu fwy o bethau, o gynigion neu lwybrau sy'n wahanol neu'n anarferol ac sy'n cynnig y posibilrwydd o ddewis.

**Amryw**
O wahanol fathau, llawer, nifer.

**Amrywiaeth o**
Nifer o wahanol fathau.

**Arbrofi**
Treialu gwahanol ddulliau a thechnegau.

**Arloesi**
Ymagwedd newydd (i'r myfyriwr) a gwahanol y mae myfyrwyr yn ei darganfod, ei datblygu ac yn ei defnyddio yn eu gwaith, ac sy'n dylanwadu ar ystyr a chyflwyniad mewn ffordd gadarnhaol.

**Asesiad interim**
Asesiad parhaus y gellir ei gynnal cyn asesiad ffurfiannol neu grynodol.

**1** gwerthuso sut gynnydd mae myfyrwyr yn ei wneud yn eu dysgu
**2** pennu a ydynt ar y trywydd iawn i fod yn perfformio'n dda mewn asesiadau yn y dyfodol.

**Asesu crynodol**
Math o asesu a ddefnyddir i werthuso'r hyn mae myfyrwyr wedi'i ddysgu, eu caffaeliad o sgiliau, a'u cyflawniad academaidd ar ddiwedd cyfnod diffiniedig o hyfforddiant – yn nodweddiadol ar ddiwedd prosiect, uned, cwrs, rhaglen neu flwyddyn academaidd.

**Asesu ffurfiannol**
Math o asesu sy'n cyfeirio at amrywiaeth eang o ddulliau y mae athrawon yn eu defnyddio yn ystod proses i werthuso dealltwriaeth myfyrwyr, eu hanghenion dysgu a'u cynnydd academaidd yn ystod gwers, uned neu gwrs.

**Asesu synoptig**
Math o asesu sy'n gofyn i fyfyrwyr ddangos y gallant adnabod a defnyddio'n effeithiol mewn ffordd integredig ddetholiad priodol o sgiliau, technegau, cysyniadau, damcaniaethau a gwybodaeth o'r maes galwedigaethol cyfan, sy'n berthnasol i dasg allweddol.

**Beirniadol**
*Adfyfyrio beirniadol:* gweithgaredd pwrpasol ar gyfer gwneud newidiadau a gwelliannau gofalus i ymarfer, gwybodaeth ac ystyron a ddatblygir wrth ddysgu.
*Dadansoddi beirniadol:* mynegiad o farn neu werthusiad yr awdur wrth ymateb i ymarfer creadigol penodol, dehongli ei ystyr a llunio barn amdano.
*Gwerthuso beirniadol:* darn o ysgrifennu a/neu recordiad sy'n defnyddio iaith briodol i edrych ar y prosiect yn ei gyfanrwydd a thrafod ei lwyddiannau a'i wendidau, a thrwy hynny helpu eraill i ddeall i ba raddau y cyflawnwyd y nodau gwreiddiol.
*Meddwl yn feirniadol:* dadansoddi a gwerthuso mater yn wrthrychol er mwyn llunio barn.

**Cyd-destunol/Cyd-destun**
Dadansoddi, gwerthuso a deall y cyd-destun/sefyllfa ehangach y gellir lleoli'r trywydd ymholi o'u mewn.

**Cyflwyno**
Sut mae gwaith yn cael ei drefnu, ei ddangos neu ei esbonio i gynulleidfa.

**Cymhleth**
Problem sy'n benodol i'r maes galwedigaethol sydd â nifer o elfennau cydgysylltiedig.

**Cynhyrchu**
Y broses o drawsnewid mewnbynnau diriaethol (e.e. deunyddiau) a mewnbynnau anniriaethol (e.e. syniadau) yn gynnyrch neu ganlyniad creadigol.

**Cynllun**
Cynnig manwl ar gyfer gwneud neu gyflawni rhywbeth.

**Cynulleidfa**
Grŵp penodol (o bobl) y caiff delweddau a syniadau eu cyfeirio atynt. Er enghraifft – ceisiadau i ganolfannau addysg uwch, cleientiaid allanol, oriel, manwerthwyr, cwmnïau marchnata.

**Cysoni safonau**
Y broses ble mae canolfan yn sicrhau bod y safonau ar gyfer graddau Methu, Llwyddo, Teilyngdod a Rhagoriaeth yn gyson ar draws gwahanol lwybrau cymhwyster.

**Cysyniad**
Syniad cyffredinol a ffurfir drwy broses feddwl bwyllog neu reddfol. Cam ffurfiannol syniadau.

**Dadansoddi**
Rhannu'r pwnc neu sefyllfaoedd cymhleth yn rhannau unigol ac archwilio bob un yn fanwl; nodi'r prif bwyntiau i'w hystyried a dangos sut mae'r prif syniadau'n gysylltiedig ag ymarfer a pham eu bod yn bwysig; gall cyfeirio at ymchwil neu ddamcaniaeth gyfredol gefnogi'r dadansoddiad.

**Dadansoddiad**
Gwaith archwilio, syniadau a phenderfyniadau mewn camau er mwyn gallu asesu potensial pob un.

**Dangos**
Amlygu argaeledd sgiliau neu ddealltwriaeth o wybodaeth, a sut cânt eu rhoi ar waith.

**Dangosol**
Yn gweithredu fel arwydd o rywbeth. Mae 'cynnwys dangosol' yn yr ystyr hon yn cyfeirio at weithgareddau, prosesau a themâu yr awgrymir eu harchwilio o fewn y cwricwlwm.

**Datblygedig**
Estynedig neu wedi'i ymhelaethu i raddau penodol.

**Datblygu**
Adnabod syniad ac adeiladu arno.

**Datrys**
Cael ateb neu esboniad i broblem, dirgelwch, ac ati, neu ffordd o ymdrin â nhw.

Ar y lefel hon, mae disgwyl i fyfyrwyr ddefnyddio'u gwybodaeth ymarferol, ddamcaniaethol neu dechnegol i lywio/mynd i'r afael â chamau gweithredu a phroblemau mewn amrywiaeth o gyd-destunau a sefyllfaoedd. Disgwylir i broblemau fod yn gymhleth a heb fod yn arferol, ond wedi'u diffinio'n glir.

**Datrys problemau**
Y broses o ganfod datrysiadau ar gyfer syniadau cymhleth ac sydd heb fod yn arferol.

**Datrysiad**
Enghraifft neu ddull penodol o ddatrys; esboniad neu ateb i gwestiwn penodol neu broblem benodol.

**Deall**
Defnyddio dealltwriaeth ymarferol, ddamcaniaethol neu dechnegol i fynd i'r afael â phroblemau sydd wedi'u diffinio'n dda ond sy'n gymhleth a heb fod yn arferol.

**Deilliant**
Cynnyrch creadigol neu ganlyniad.

**Dilysu mewnol**
Y broses o sicrhau bod pawb sy'n asesu cymhwyster penodol mewn canolfan yn asesu at yr un safonau.

**Disgrifio**
Yn diffinio, esbonio'r pwnc neu weithgaredd gan roi gwybodaeth fanwl.

**Disgyblaethau**
Gallent gynnwys, ond nid ydynt wedi'u cyfyngu i, ymarfer o fewn meysydd celfyddyd gain, y celfyddydau rhyngweithiol, cyfathrebu graffeg, ffotograffiaeth/cyfryngau lens, dylunio ffasiwn/tecstilau, dylunio tri dimensiwn, a'r cyfryngau.

**Dyfnder**
Y graddau y canolbwyntir ar bynciau penodol, y cânt eu hehangu a'u harchwilio.

**Ehangder**
Ystod eang; cwmpas neu ymestyniad.

**Eithriadol**
Anarferol o dda; rhagorol. Ni ddylid dehongli hyn i awgrymu bod angen perffeithrwydd llwyr yng ngwaith myfyriwr. Yn hytrach byddai'n fwy priodol chwilio am waith sy'n rhagorol, hyd yn oed os yw'n cynnwys rhai mân gamgymeriadau, hepgoriadau neu amherffeithrwydd.

**Gwahaniaethu**
Yn nodi'r gwahaniaethau rhwng dau neu fwy o bethau.

**Gwerthuso**
Archwilio cryfderau a gwendidau, dadleuon o blaid ac yn erbyn a/neu beth sy'n debyg ac yn wahanol; barnu'r dystiolaeth o'r gwahanol safbwyntiau a dod i gasgliad dilys neu farn resymegol; defnyddio ymchwil neu ddamcaniaethau cyfredol i gefnogi'r gwerthusiad pan fo'n berthnasol.

**Iaith weledol**
Iaith cyfathrebu gweledol, a fynegir trwy ei elfennau ffurfiol (e.e. llinell, siâp, ffurf, gwead, patrwm, lliw) i gynhyrchu delweddau a gwrthrychau sy'n ymgorffori ystyron, negeseuon, teimladau a syniadau.

**Meincnodi**
Trothwy isaf perfformiad yw meincnod, a gellir ei ddefnyddio i sicrhau bod pob llwybr yn cael ei fesur gan ddefnyddio'r un gofynion sylfaenol.

**Moeseg**
Yr egwyddorion moesol, a'r gwerthoedd sy'n diffinio'r hyn sy'n dda i unigolion, i gymdeithas a'r ddaear, ac sy'n llywodraethu ein hymddygiad a'n prosesau penderfynu.
Dylai myfyrwyr ystyried effaith eu hymarferion ar unigolion (cydfyfyrwyr, cynulleidfaoedd penodedig), yr amgylchedd (stiwdio, lleol, byd-eang) a phethau byw (anifeiliaid, planhigion, natur, ac ati).

**Pedwar-dimensiwn**
Archwilio naratif a delweddau trwy gyfrwng prosesau seiliedig ar amser, er enghraifft ffilm, animeiddio a ffotograffiaeth.

**Perthnasol**
Â chysylltiad agos neu'n briodol i'r hyn sy'n cael ei wneud neu ei ystyried.

**Priodol**
Addas neu'n gweddu i ddiben penodol.

**Problemau damcaniaethol**
Syniadau neu ddamcaniaeth maes pwnc neu faes astudio yn hytrach na sut caiff ei roi ar waith yn ymarferol.

**Problemau technegol**
Problemau sy'n codi wrth ddefnyddio deunyddiau, peiriannau a chyfarpar, a hynny'n rhai traddodiadol neu ddigidol.

**Proses greadigol**
Term a ddefnyddir i ddisgrifio'r camau hanfodol ar gyfer datblygu syniadau.

**Prosiect**
Gweithgaredd hunangyfeiriedig, ar raddfa fawr sy'n gofyn gwaith cynllunio, ymchwil, archwilio, canlyniad ac adolygiad.

**Rhoi ar waith**
Defnyddio sgiliau neu wybodaeth briodol a pherthnasol, at ddiben penodol.

**Safoni mewnol**
Proses o sicrhau y cynhelir safonau, cysondeb marcio a thegwch i fyfyrwyr ar draws holl arbenigeddau'r cymhwyster.

**Sgiliau ymarferol**
Sgiliau a gyflawnir â llaw neu â chyfraniad gan bobl, gan ddefnyddio offer, cyfarpar neu dechnoleg sy'n gofyn arweiniad, grym neu symudiad.

**Ymarfer arbenigol**
Y broses ble mae'r myfyrwyr yn arfer rheolaeth unigol a lefel resymol o gyfrifoldeb dros greu, cyfathrebu a chyflwyno canlyniadau creadigol o fewn disgyblaeth arbenigol o'u dewis.

**Ymarfer creadigol**
Gallai gynnwys, ond nid yw wedi'i gyfyngu i, ymarfer o fewn meysydd celfyddyd gain, y celfyddydau rhyngweithiol, cyfathrebu graffeg, ffotograffiaeth/cyfryngau lens, dylunio ffasiwn/tecstilau, dylunio tri dimensiwn, a'r cyfryngau.

**Ymchwil**
Nodi a chasglu data neu wybodaeth am bwnc a'i gyflwyno ar ffurf wedi'i godio neu strwythuro. Nid yw ymchwil yn awgrymu dadansoddi'r data a gasglwyd, ond gallai hynny fod ymhlyg yn y cyd-destun. Nid yw ymchwil yn awgrymu rhoi unrhyw farn am y data a gasglwyd, ond gellid cyfuno hynny gyda berfau cysylltiedig (dadansoddi, gwerthuso) i sicrhau bod y camau hyn yn digwydd.

# Adran 8
# **Sicrhau ansawdd**

## 8.1 Dilysu mewnol

Dilysu mewnol yw'r broses lle mae canolfan yn pennu bod safonau a chysondeb penderfyniadau asesu yn gymaradwy rhwng aseswyr ac ar draws y cymhwyster.

Rhaid bod gan ganolfannau fframwaith sicrhau ansawdd mewnol sefydledig i sicrhau bod trefniadau cymeradwyo, sicrhau ansawdd a chontractiol UAL Awarding Body yn cael eu bodloni. Cyfrifoldeb dilyswyr mewnol yw sicrhau bod penderfyniadau aseswyr yn cael eu samplu a'u monitro er mwyn sicrhau cysondeb a thegwch a bod yr asesiadau a osodir yn briodol ac ar y lefel ofynnol.

Mae dilyswyr mewnol hefyd yn gyfrifol am gefnogi aseswyr drwy gynnig cyngor ac arweiniad. Bydd dilyswyr mewnol yn dilyn strategaeth samplu'r ganolfan ei hun wrth ddewis y sampl i'w ddilysu'n fewnol a thros amser bydd yn rhaid iddynt gynnwys tystiolaeth o ystod lawn o waith, cyflawniad myfyrwyr a phenderfyniadau a wnaed gan yr holl staff sydd â chyfrifoldeb asesu.

Cydnabyddir bod gwahanol ganolfannau'n defnyddio gwahanol ddulliau a thermau sy'n benodol i'w diwylliant nhw. Rhaid i ganolfannau sicrhau bod eu methodolegau yn ddigon cadarn ac yn bodloni'r safonau a osodir gan UAL Awarding Body. Mae UAL Awarding Body yn cadw'r hawl i samplu gwybodaeth canolfannau ar ddilysu mewnol ar draws y cymhwyster.

## 8.2 Safoni allanol

Mae safoni allanol yn gwerthuso dilysrwydd penderfyniadau asesu canolfannau o waith a asesir ac a ddilysir yn fewnol. Mae safoni allanol yn digwydd cyn i UAL Awarding Body ddyfarnu'r graddau.

Safonwyr allanol, a gaiff eu penodi, eu hyfforddi a'u monitro gan UAL Awarding Body, sy'n gwneud y gwaith safoni allanol. Mae safonwyr allanol yn gyfrifol am sicrhau bod yr asesu mewnol yn drwyadl a bod penderfyniadau asesu'n deg, yn ddilys, yn ddibynadwy ac yn ddiduedd.

Mae gwaith safoni allanol UAL Awarding Body yn cael ei gynnal unwaith y flwyddyn o leiaf er mwyn sicrhau bod penderfyniadau asesu yn gydnaws â'r safon ofynnol.

## 8.3 Addasiadau Rhesymol ac Ystyriaeth Arbennig

Mae UAL Awarding Body wedi cyhoeddi trefniadau ar gyfer Addasiadau Rhesymol ac Ystyriaeth Arbennig i fyfyrwyr sy'n ymgymryd â'i gymwysterau, pan fo'u hangen.

Mae gwybodaeth am Addasiadau Rhesymol ac Ystyriaeth Arbennig a sut i wneud cais amdanynt i'w gweld ar y dudalen Polisïau a Gweithdrefnau ar wefan UAL.

# Adran 9
# Adnoddau a chefnogaeth

## Dogfennau

Mae UAL Awarding Body yn darparu amrywiaeth o adnoddau i ganolfannau i'w helpu i baratoi ar gyfer ein cymwysterau ac i'w cyflwyno, gan gynnwys:

**Manyleb y cymhwyster**
Mae'r ddogfen hon ar gyfer unrhyw un sydd â diddordeb ym manylion y cymhwyster. Mae'n rhoi gwybodaeth am strwythur a chynnwys y cymhwyster ac mae hefyd yn cynnwys gwybodaeth am asesu, safoni a gweinyddu'r polisi asesu cymwysterau.

At ddefnydd canolfannau, safonwyr allanol a myfyrwyr y bwriedir y fanyleb, ac mae wedi'i dylunio i roi arweiniad ar asesu a dilysu mewnol ac asesu a safoni allanol.

**Canllawiau cyflwyno**
Ar gyfer staff canolfannau y mae'r ddogfen hon. Mae hi'n rhoi gwybodaeth ymarferol er mwyn cynorthwyo gyda'r gwaith o gynllunio a chyflwyno cymwysterau UAL Awarding Body.

## Ffurflenni

Mae UAL Awarding Body yn darparu amrywiaeth o adnoddau i ganolfannau i'w helpu i baratoi ar gyfer ein cymwysterau ac i'w cyflwyno, gan gynnwys:

> Ffurflen Dilysu Ymgeisydd
> Ffurflen Addasiadau Rhesymol
> Ffurflen Ystyriaeth Arbennig

Gellir lawrlwytho ffurflenni o wefan UAL Awarding Body: arts.ac.uk/awarding

## Cefnogaeth i ganolfannau

Mae UAL Awarding Body yn darparu amrywiaeth o weithgareddau hyfforddi a datblygu drwy gydol y flwyddyn i gefnogi canolfannau i gyflwyno ein cymwysterau. Ymysg y rhain mae:

**Grwpiau cyflwyno**
Mae'r digwyddiadau hyn wedi'u dylunio i gefnogi canolfannau sydd newydd eu cymeradwyo i ddechrau cyflwyno'r cymwysterau yn y flwyddyn academaidd nesaf. Mae canolfannau'n trafod modelau cyflwyno ac yn adolygu deunyddiau asesu ar gyfer y flwyddyn i ddod.

**Digwyddiadau cysoni safonau**
Gwahoddir canolfannau i rannu eu harferion gorau o ran cyflwyno cymwysterau, asesu, portffolios a chyflwyniadau gyda chydweithwyr o sefydliadau eraill.

**Cylchlythyr**
Anfonir gwahoddiadau i'r digwyddiadau hyn, yn ogystal â diweddariadau gan UAL Awarding Body a'r sector ehangach, drwy'r cylchlythyr misol. Gall staff sy'n cyflwyno'r cymhwyster danysgrifio i'r cylchlythyr drwy e-bostio: comms.awarding@arts.ac.uk.

# Eisiau gwybod mwy?

**Cysylltu**

**UAL Awarding Body**
272 High Holborn
Llundain
WC1V 7EY

Ffôn: 020 7514 9851
ual.awardingbody@arts.ac.uk

UALawardingbody
UALawardingbody
UALawardingbody
UAL Awarding Body

Cyhoeddwyd: 01/09/2025
Fersiwn 1

**arts.ac.uk/awarding**


Phoebe Stocks, Leeds Arts University

University of the Arts London sydd â'r hawlfraint i'r holl ddelweddau oni nodir yn wahanol